**Agenda Eitem Rhif 3(a)**

**CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)**

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl ar Ddydd Gwener, 5ed Gorffennaf, 2002 am 10.00 a.m.

**YN BRESENNOL**

**Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Cynghorwyr S. Drew, K.N. Hawkins, D. Jones, M.M. Jones ac W. Roberts

**Yn Cynrychioli Cyd-Bwyllgor Negodi Athrawon Sir Ddinbych**

Mrs M.B. Lloyd (Cadeirydd), M. Barros-Curtis a'r Chwaer Elizabeth

**Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol**

T. Bryer, M. Colbert, H. Ellis, S. Harris, J. Gibson a J. Kirkham

**Aelodau Cyfetholedig**

T. Ap Siôn (dirprwy ar ran y Parch. Athro L.J. Francis)

**HEFYD YN BRESENNOL**

Arolygydd/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol (AG), Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes a Swyddog Gweinyddol (K.E. Jones)

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH**

Mrs M. Evans a'r Parch. John Owen

**1. MYFYRDOD TAWEL**

Cynigiodd y Cadeirydd ychydig funudau o fyfyrdod tawel ar ddechrau'r cyfarfod.

**2. CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a chyflwynodd Adam France o Ysgol Uwchradd Y Rhyl a oedd yn bresennol fel sylwedydd fel rhan o'i leoliad profiad gwaith gyda'r Cyngor. Rhoddodd y Cadeirydd wybod hefyd am ymddiswyddiad Mrs Carolyn Thomas fel un o gynrychiolwyr yr athrawon ar CYSAG a thalodd deyrnged i'w gwasanaeth ar y Cyngor a'i chyfraniad gwerthfawr at drafodaeth. Cytunwyd bod llythyr i'w anfon at Mrs Thomas yn adleisio'r teimladau hynny ac yn cyfleu gwerthfawrogiad a dymuniadau gorau'r Cyngor. Rhoddodd y Cadeirydd wybod hefyd fod CBNAD wedi'i wahodd i enwebu cynrychiolydd i gymryd lle Mrs Thomas ar y Cyngor ac y byddai'n ystyried yr enwebiad hwnnw yn eu cyfarfod ym mis Medi.

**3. MATERION BRYS**

Yn unol â gofynion Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cyhoeddodd y Cadeirydd ei bod yn bwriadu cynnwys y mater canlynol, a oedd ag angen sylw brys, i'w drafod:-

Gwasanaeth Cefnogaeth Gwricwlaidd - Trefniadau Gweithio ar y Cyd

Nododd y Cadeirydd ei chaniatâd i ystyried yr eitem hon cyn unrhyw fater arall a chroesawodd Gyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes i'r cyfarfod a'i gwahodd i siarad ar y mater hwn.

Hysbysodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes yr aelodau o arolwg diweddar o'r cyd-drefniadau presennol ar gyfer gwasanaethau cefnogaeth cwricwlaidd sy'n cael eu rhannu rhwng Sir Ddinbych ac awdurdodau cyfagos Conwy, Sir y Fflint a Wrecsam a rhoddodd wybod am oblygiadau dilynol yr arolwg hwnnw ar gyflwyno gwasanaethau cwricwlaidd i ysgolion yn yr ardaloedd hynny. Dywedodd y bu Wrecsam yn ystyried ffyrdd eraill o gyflwyno gwasanaeth, a oedd yn golygu tynnu allan o'r cyd-drefniadau presennol. Talodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol deyrnged i'r gwaith a wneir gan Arolygydd/Ymgynghorydd AG wrth wasanaethu'r pedwar awdurdod lleol a sicrhaodd yr aelodau y byddai ei wasanaeth i Sir Ddinbych a CYSAG Sir Ddinbych yn parhau. Rhoddodd wybod ymhellach y byddai'r Cyngor Sir yn ystyried oblygiadau'r newid hwn i'r trefniadau gweithio ar y cyd ym mis Medi, 2002.

Diolchodd y Cadeirydd i Gyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes am ei hadroddiad llafar a mynegodd ei siom ynglyn â'r posibilrwydd y gall Wrecsam dynnu'n ôl o'r cyd-drefniadau presennol ond roedd hi'n falch o nodi y byddai gwasanaeth Sir Ddinbych yn parhau drwy Arolygydd/Ymgynghorydd AG.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chydnabod yr adroddiad llafar gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes.*

Yn y fan hon cyfeiriodd y Cynghorydd D. Jones at ei bresenoldeb yn ddiweddar mewn datganiad yng Nghadeirlan Llanelwy a mynegodd ei falchder wrth glywed pobl ifainc o Sir Ddinbych yn sôn am eu ffydd Gristnogol. Gwnaeth y sylw nad oedd y mwyafrif o blant yn mynd i leoedd o addoliad a phwysleisiodd bwysigrwydd bod pobl ifainc yn cael y cyfle i ymuno â Grwpiau Cristnogol mewn ysgolion. Mynegodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG ei ofid nad oedd wedi gallu bod yn bresennol yn yr achlysur yng Nghadeirlan Llanelwy oherwydd rhybudd annigonol ymlaen llaw, ond rhoddodd wybod y byddai'n ddigwyddiad blynyddol yr oedd yn gobeithio cymryd rhan ynddo yn y dyfodol. Tra'n cydnabod nad oedd rôl CYSAG yn ymestyn i ddarparu Addysg Grefyddol y tu allan i ysgolion, gobeithiai'r aelodau y byddai Addysg Grefyddol yn cael ei pharhau gan rieni, yn y cartref ac mewn mannau eraill o addoliad.

## 4. COFNODION

Cyflwynwyd Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31ain Ionawr, 2002 (a gylchlythyrwyd yn flaenorol), fel y'u cymeradwywyd gan y Cyngor Sir ar 26ain Mawrth, 2002.

Wrth ystyried y Cofnodion nododd yr aelodau nad oedd rhifau tudalennau'r Cofnodion Cymraeg a Saesneg yn cyfateb ond roeddynt yn cydnabod bod angen i rifau'r tudalennau yn y Llyfrau Cofnodion Cymraeg a Saesneg redeg yn olynol ac na ellid eu newid. Rhoddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes wybod bod mater cyfieithu dan arolwg ar hyn o bryd.

**Materion yn Codi**:-

Eitem Rhif 1210 - Cofnodion: Eitem Rhif 656 - Adroddiad Blynyddol Drafft: Mater Cyfieithu - Dywedodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG ei fod wedi dod â chopïau terfynol Adroddiad Blynyddol CYSAG Sir Ddinbych 2000 - 2001 ac anogodd yr aelodau i fynd â chopi ar ddiwedd y cyfarfod.

Eitem Rhif 1210 - Cofnodion: Eitem Rhif 657 - Cymdeithas Cymru CYSAGau: Cwricwlwm y Blynyddoedd Cynnar - Darllenodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG lythyr a dderbyniwyd oddi wrth ACCAC mewn ymateb i sylwadau CYSAGau i gynnwys AG a Datblygiad Ysbrydol gyda chwricwlwm y blynyddoedd cynnar. Roedd ACCAC wedi cydnabod pryderon CYSAGau ac wedi dweud bod y mater i gael sylw yn yr arolwg o'r rhan hon o'r cwricwlwm, ac yng ngoleuni penderfyniadau gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Eitem 1212 - Cymdeithas Cymru CYSAGau - (a)(iii) Darpariaeth Trwy Gyfrwng y Gymraeg - Rhoddodd y Cadeirydd wybod am gyfarfod rhwng swyddogion y Gymdeithas a Choleg y Drindod, yn cyfeirio'n arbennig at gyflwyno cwrs dwyieithog newydd sy'n cynnwys darlithoedd Saesneg a thiwtorialau

Cymraeg ar gyfer myfyrwyr Cymraeg. Rhoddodd hi wybod, ar yr amod bod digon o fyfyrwyr Cymraeg yn cofrestru ar y cwrs, y byddai'n bosibl hefyd cynnig cyflwyno darlithoedd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhoddodd y Cynghorydd D. Jones wybod bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi trafod addysgu Cymraeg i blant mewn dosbarthiadau meithrin gan y gallai plant ifainc ddysgu ieithoedd yn gyflym iawn a chadarnhaodd fod rhieni wedi dod ato yn y cyswllt hwnnw.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y cofnodion.*

**5. DIRPRWYAETH I'R CYNULLIAD CENEDLAETHOL**

Rhoddodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG wybod ar lafar fod dirprwyaeth o Bwyllgor Gwaith CCCYSAG wedi ymweld â Ms Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ar 8fed Mai, 2002. Hysbysodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG yr aelodau o'r prif bynciau trafod yn y cyfarfod hwnnw a chyfeiriodd yn arbennig at y pwyntiau canlynol:-

(i) Cylchlythyr 10/94 - eglurodd y Gweinidog fod fersiwn ddiwygiedig o'r cylchlythyr yn annhebygol gan fod llawer o gylchlythyrau eraill a oedd ag angen eu diwygio wedi cael blaenoriaeth uwch; er hynny, roedd hi wedi cytuno bod egluro rhai agweddau yn bosibl ac y byddai'r agweddau hynny'n cael eu harchwilio'n fwy manwl, a chroesawai gyfraniad y Cymdeithasau yn y mater hwn;

(ii) Recriwtio, Cyflenwi a Hyfforddi Athrawon - cydnabu'r Gweinidog y prinder athrawon arbenigol mewn AG ond rhoddodd wybod bod yna bynciau eraill gyda mwy o broblemau recriwtio; nododd hi hefyd na fu'r arferiad presennol o gynnig bwrsari ar gyfer hyfforddi athrawon yn effeithiol ac awgrymodd ffyrdd eraill o fynd i'r afael â'r mater hwnnw, yn cynnwys lleihau dyled benthyciadau myfyrwyr i'r athrawon hynny a oedd yn cwblhau cyfnod penodol o amser yn yr alwedigaeth;

(iii) Darparu Adnoddau ar gyfer AG (yn arbennig adnoddau Cymraeg eu cyfrwng) - cydnabu'r Gweinidog yr angen am adnoddau a rhoddodd wybod ei bod hi eisoes yn ystyried ffyrdd o gyflymu'r broses gydag ACCAC o ran cynhyrchu adnoddau Cymraeg eu cyfrwng;

(iv) Cefnogaeth i AG a CYSAGau - mewn perthynas â diffyg Cefnogaeth Ymgynghorol AG yng Nghymru cydnabu'r Gweinidog y diffygion o ran cefnogi'r cwricwlwm a chadarnhaodd ei bod hi'n archwilio ffyrdd o wella darpariaeth cefnogaeth cwricwlwm yn yr holl feysydd pwnc; awgrymodd hi hefyd fod CCCYSAG yn trafod mater cyllid ychwanegol ar gyfer cefnogaeth AG a gwaith CYSAGau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol;

(v) Addysg Ôl 16 - wrth drafod anghysondebau addysg ôl-16 rhoddodd y Gweinidog wybod y byddai AG yn parhau'n bwnc statudol ac nad oedd dim posibilrwydd i Gymru fabwysiadu safbwynt gwahanol i un Lloegr, a

(vi) Darparu Defnyddiau Cefnogi Dwyieithog - mewn ymateb i gais am gyllid ar gyfer defnyddiau o'r fath dywedodd y Gweinidog nad oedd y Cynulliad yn cyllido cyhoeddiadau o unrhyw fath.

I gloi, roedd Arolygydd/Ymgynghorydd AG yn falch o roi gwybod y bu'r cyfarfod yn brofiad cadarnhaol iawn a bod Ms Davidson wedi gwahodd y ddirprwyaeth i ddychwelyd am ymweliad blynyddol. Rhoddodd y Cadeirydd wybod bod lefel ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y Gweinidog o AG yn y cwricwlwm wedi gwneud argraff ar swyddogion CCCYSAG a'u bod yn edrych ymlaen at y cyfarfod nesaf.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chydnabod yr adroddiad llafar gan Arolygydd/Ymgynghorydd AG.*

**6. CYNLLUNIAU HMS 2002 - 2003**

Cyflwynodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG fanylion Rhaglen HMS Addysg Grefyddol ar gyfer 2002 - 2003 mewn cyrsiau cynradd a chyrsiau uwchradd (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) er gwybodaeth i'r aelodau.

Aeth Arolygydd/Ymgynghorydd AG yn ei flaen i fynd â'r aelodau drwy'r rhaglen HMS, gan amlinellu'n fyr gynnwys cyrsiau'r amrywiol sesiynau, ac ymatebodd i gwestiynau'r aelodau ar hynny. Hysbyswyd yr Aelodau hefyd o'r cyrsiau a ddarparwyd gan y Gymdeithas AG dros y deuddeng mis diwethaf a bod y cynigion ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf yn cynnwys mentrau megis 'Cristnogaeth ar gynnig' i wella cyflwyno AG a 'Diwrnod Profiadau Disgyblion', sy'n cynnwys gweithdai yng Nghadeirlan Llanelwy yn terfynu mewn gweithred o addoli.

Cydnabu'r aelodau mai Arolygydd/Ymgynghorydd AG fyddai prif ddarparwr y cyrsiau a nodwyd yn y rhaglen HMS. Rhoddodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG wybod am yr oblygiadau costiadau sylweddol i ysgolion pe byddai darparwyr allanol yn cael eu defnyddio.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd trafododd yr aelodau yr asesiadau risg a gyflawnir fel rhan o'r rheoliadau iechyd a diogelwch newydd a'r oblygiadau dilynol i ysgolion. Rhoddodd y Cadeirydd wybod bod y cyfrifoldeb ar reolwyr ysgolion i sicrhau y cydymffurfir â'r rheoliadau newydd. Hefyd trafododd yr aelodau y posibilrwydd o ymweld ag ysgolion a mynychu hyfforddiant HMS fel rhan o'u rôl ar CYSAG Sir Ddinbych. Cadarnhaodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG y byddai croeso i aelodau fynychu cwrs hyfforddiant mewn swydd penodol ar yr amod bod lleoedd ar gael a byddai tâl bychan yn cael ei godi i gwrdd â chost lluniaeth. Mewn perthynas ag aelodau'n ymweld ag ysgolion, rhoddodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG wybod y gellid trefnu ymweliad ar yr amod bod pwrpas clir i'r ymweliad, a ddylai gael ei drefnu drwyddo ef ymlaen llawn.

***PENDERFYNWYD** derbyn a chydnabod Rhaglen HMS Addysg Grefyddol ar gyfer 2002 - 2003.*

**7. MANYLEBAU ARHOLIADAU NEWYDD MEWN ASTUDIAETHAU CREFYDDOL**

Cyflwynodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG y manylebau arholiadau newydd mewn Astudiaethau Crefyddol (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) i'r aelodau eu hystyried. Cyfeiriodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG at y newidiadau aruthrol ym maes llafur AG dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac amlinellodd yn fyr fanylion y fanyleb, yn eu plith gynnwys y cwrs a'r dull arholi ac asesu ar gyfer TGAU, Lefelau AS/Uwch a Thystysgrif Lefel Mynediad. Cyfeiriodd yn arbennig at y pwyntiau canlynol:-

- Astudiaethau Crefyddol TGAU - roedd dwy fanyleb TGAU y naill a'r llall yn caniatáu cwrs llawn a chwrs byr; gallai'r cyrsiau llawn yn y naill fanyleb neu'r llall gael eu gwneud hefyd dros ddau gyfnod allweddol: 1 cwrs byr ym mlynyddoedd 10 ac 11 a'r ail ym mlynyddoedd 12 ac 13;

- Astudiaethau Crefyddol AS/Uwch - dwy fanyleb yn cynnwys Uwch Gyfrannol (AS) ac Uwch (A2); gellid cymryd Lefelau AS yn eu hawl eu hunain neu gellid eu cymryd fel 'rhan un' y cymhwyster Lefel Uwch, a

- Tystysgrif Lefel Mynediad (COEA) - dwy fanyleb wedi'u cynllunio ar gyfer ymgeiswyr is eu cyrhaeddiad, h.y. y rheini nad ydynt yn nodweddiadol yn cyrraedd Lefel 3 y Cwricwlwm Cenedlaethol; CABC y prif ddarparwr ar gyfer y dystysgrif.

Diolchodd y Cadeirydd i Arolygydd/Ymgynghorydd AG am ei eglurhad clir ar gynnwys ac asesiadau'r cyrsiau ac yn dilyn hynny fe:-

***BENDERFYNWYD** derbyn a chydnabod y manylebau arholiadau newydd.*

**8. CYMDEITHAS CYMRU CYSAGAU**

**(a) Symposiwm ACCAC - 27ain Ebrill, 2002**

Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad llafar ar y Symposiwm a gynhaliwyd ar y cyd ag ACCAC ar 27ain Ebrill, 2002 yn Ysgol Gynradd Llanidloes i ystyried rôl a statws Meysydd Llafur Cytûn AG. Roedd y cynrychiolwyr wedi'u croesawu gan Gadeirydd ACCAC ac roedd cyflwyniad wedi'i wneud gan Rheinallt Thomas ac wedi hynny roedd grwpiau trafod wedi'u ffurfio i ystyried cwestiynau neilltuol. Byddai'r prif bwyntiau ac argymhellion a wnaed gan y grwpiau trafod hynny'n cael eu cyhoeddi mewn adroddiad. I

gloi roedd y Cadeirydd yn falch o ddweud y bu'r Symposiwm yn eithriadol gynhyrchiol a buddiol i'r holl gynrychiolwyr.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad llafar ar y Symposiwm gan y Cadeirydd.*

**(b) Cyfarfod Nesaf y Gymdeithas - 12fed Gorffennaf, 2002**

Rhoddodd y Cadeirydd wybod y byddai Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas yn cael ei gynnal ar ddydd Gwener, 12fed Gorffennaf, 2002 yn Abertawe. Rhoddodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG wybod y byddai Is-Gadeirydd presennol CCCYSAG, Mrs Mairwenna Lloyd, yn dod yn Gadeirydd CCCYSAG yn y cyfarfod hwnnw. Cydnabu'r aelodau y fraint i un o aelodau CYSAG Sir Ddinbych ddal swydd o'r fath ar lefel genedlaethol a bu iddynt gyfleu eu dymuniadau gorau i Mrs Lloyd wrth ymgymryd â'i rôl newydd.

**(c) CCCYSAG - 7fed Chwefror, 2002**

Rhoddodd y Cadeirydd, a oedd hefyd yn Is-Gadeirydd CCCYSAG, adroddiad llafar ar y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 7fed Chwefror, 2002 yn Nhorfaen (ond a groesawyd gan Sir Fynwy) fel a ganlyn:-

(i) 'Addysg Grefyddol Ôl - 16' - Roedd Mr Tudor Thomas wedi cyflwyno'r newidiadau mewn addysg ôl-16 ac wedi amlinellu'r derminoleg newydd ynglyn â'r fanyleb ac wedi rhoi manylion cefndir, strwythur a chynnwys y cyrsiau TGAU llawn amser a rhan-amser â'r Cwrs Astudiaethau Crefyddol AS/A2 newydd. Roedd Mr Paul Matthews-Jones wedi cyflwyno rhai o'r ffyrdd y gellid cyflwyno AG mewn addysg ôl-16 a ffyrdd i ysgogi diddordeb disgyblion a'u hannog i archwilio eu credoau eu hunain, a

(ii) 'Y Prosiect Biblos' - Roedd yr Athro Copley wedi'i wahodd i annerch y Gymdeithas ar y Prosiect Biblos. Roedd wedi dweud pe byddai'r Beibl yn cael ei addysgu'n dda y byddai'r disgyblion yn awyddus i ymgysylltu â'r naratif a phwysleisiodd bwysigrwydd bod y disgyblion yn cael y cyfle i feddwl drostynt eu hunain.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y mewnosodiadau yn newyddion AG yn manylu ar y cyflwyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd y Gymdeithas a phwysleisiodd eu pwysigrwydd fel adnodd gwerthfawr ac effeithiol i ysgolion. Awgrymodd y Cadeirydd fod llythyr i'w anfon i holl ysgolion Sir Ddinbych yn tynnu eu sylw at y mewnosodiadau y gellid eu cadw a'u defnyddio fel ffeil broffesiynol i athrawon. Cytunai'r aelodau â'r awgrym hwnnw ac fe:-

***BENDERFYNWYD****:-*

*(a) derbyn yr adroddiad llafar gan y Cadeirydd, a*

*(b) anfon llythyr i ysgolion Sir Ddinbych yn tynnu eu sylw at y mewnosodiadau yn newyddion AG gyda chais bod y mewnosodiadau i'w cadw a'u defnyddio fel ffeil adnoddau broffesiynol i athrawon.*

**9. ADNODDAU CYDADDOLI: DEFNYDDIAU NEWYDD**

Gofynnodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG am farn yr aelodau ar samplau o 'The Primary Assembly File' a 'The Secondary Assembly File' (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) a ddarparwyd gan Pfp Publishing Ltd i'w defnyddio wrth gynllunio a chyflwyno cydaddoli.

Rhoddodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG wybod ei fod wedi siarad â'r Rheolwr Marchnata a Gwerthiannau yn Pfp Publishing Ltd, a oedd wedi dweud y byddai'n barod i leihau'r ffi tanysgrifio pe byddai ysgolion yn archebu drwy'r awdurdod addysg lleol. Fodd bynnag, byddai'r defnyddiau gan Pfp publishing ond ar gael yn Saesneg. Roedd ACCAC yn gweithio ar brosiectau ar hyn o bryd i gynhyrchu adnoddau dwyieithog ond ni allai gadarnhau pryd y byddai'r adnoddau hynny ar gael. Hysbyswyd yr aelodau hefyd o ddarparwyr eraill defnydd o'r fath yn cynnwys darparwyr rhyngrwyd. Er bod defnyddiau'r rhyngrwyd yn llai manwl, roeddynt ar gael yn rhad ac am ddim. Arddangosodd

Arolygydd/Ymgynghorydd AG ddefnydd enghreifftiol gan ddarparwyr rhyngrwyd ac adnoddau eraill petai'r aelodau'n dymuno archwilio'r rhain ymhellach.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd teimlai'r aelodau y dylid annog ysgolion i wella eu darpariaeth ac y dylid rhoi gwybod iddynt am y cynnig gan Pfp Publishing Ltd, yn ogystal â'r holl ddefnydd arall sydd ar gael i'w ddefnyddio gan y darparwyr eraill. Awgrymwyd hefyd fod llythyr i'w anfon i ACCAC i ofyn am ddiweddariad ar y prosiect cydaddoli. Mewn ymateb i'r awgrym hwnnw, rhoddodd Tania Ap Siôn, y cynrychiolydd o Ganolfan Addysg Grefyddol Genedlaethol Cymru, wybod y gallai fod yn ddwy flynedd cyn y byddai'r adnoddau hynny gan ACCAC ar gael. Mewn perthynas â darpariaeth ddwyieithog rhoddodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG wybod bod ACCAC wedi trafod y posibilrwydd o gyfieithu gyda Pfp Publishing Ltd ond na fu hi'n bosibl datrys cwestiwn pwy fyddai'n dwyn y costau cyfieithu. Wrth drafod y cwestiwn cyfieithu cydnabu'r aelodau nad oedd storïau a cherddi o reidrwydd yn cyfieithu ac yn rhoi'r naws gywir.

Cyfeiriodd aelod at yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yn Ninbych y llynedd pan gynhaliwyd cystadleuaeth i baratoi llyfr ar gyfer addoli o fewn ysgolion ac awgrymodd hi'r posibilrwydd o drefnu i gyhoeddi'r llyfr buddugol i'w ddefnyddio fel adnodd mewn ysgolion. Cadarnhaodd Arolygydd/ Ymgynghorydd AG y byddai'n chwilio i mewn i'r mater hwnnw ac yn cyflwyno adroddiad i'r Cyngor ar hynny.

Fel mesur ychwanegol i wella'r ddarpariaeth, awgrymodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd y dylid trefnu diwrnod HMS ar gydaddoli ac roedd yr aelodau'n cefnogi'r cynnig hwnnw'n llwyr.

***PENDERFYNWYD*** *bod Arolygydd/Ymgynghorydd AG yn cysylltu ag ysgolion Sir Ddinbych gyda manylion y cynnig gan Pfp Publishing Ltd yn ogystal â manylion yr holl ddefnydd arall sydd ar gael i'w ddefnyddio gan ddarparwyr eraill.*

**10. <u>EITEMAU GWYBODAETH</u>**

(a) Cyfeiriodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG at y ddogfen 'Cwricwlwm Cymreig' a chadarnhaodd fod caniatâd wedi'i roi yn awr i atgynhyrchu'r ddogfen ar gyfer ysgolion. Rhoddodd wybod, unwaith yr oedd fersiwn derfynol y ddogfen wedi'i chynhyrchu, y byddai'n trefnu iddi gael ei choladu a'i dosbarthu i ysgolion.

(b) Rhoddodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG wybod bod cyfarwyddyd newydd ar asesu AG mewn perthynas â'r lefelau cenedlaethol newydd a fabwysiadwyd yn cael ei gynhyrchu. Y gobaith oedd y byddai'r ddogfen gyfarwyddyd ar gael ar gyfer cylch cyntaf y ddarpariaeth hyfforddiant mewn swydd ym mis Medi a byddid yn trefnu bod copïau ar gael i aelodau CYSAG cyn gynted â phosibl.

(c) Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau y byddai cyfarfod nesaf CYSAG Sir Ddinbych yn cael ei gynnal am 10.00 a.m. ar ddydd Iau, 17eg Hydref, 2002 yn Siambr y Cyngor, Prestatyn ac y byddai'r Is-Gadeirydd presennol, y Parch. John Owen, yn cael ei sefydlu yn y cyfarfod hwnnw. Atgoffodd Arolygydd/Ymgynghorydd AG yr aelodau y byddid yn gofyn am enwebiadau ar gyfer Is-Gadeirydd yn y cyfarfod nesaf o blith cynrychiolwyr yr aelodau etholedig.

Diolchodd y Cadeirydd i Arolygydd/Ymgynghorydd AG am y gwaith yr oedd wedi ymgymryd ag ef ar ran y Cyngor a diolchodd i Glerc CYSAG a'r aelodau am eu presenoldeb yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.50 a.m.

*************

**Agenda Eitem Rhif. 4**

# Adroddiad Blynyddol
# Cyngor Ymgynghorol Sefydlog
# ar Addysg Grefyddol Sir Ddinbych

**2001 – 2002**

## (a) Y Maes Llafur Cytûn

Ar ôl datblygu'r Maes Llafur Cytûn Diwygiedig yn llwyddiannus, roedd yr aelodau'n falch fod y grwp gweithio ar y cyd yn gallu parhau ei gyfarfod, wedi'i gyllido'n rhannol gan Ymddiriedolaeth Sant Gabriel, ac wedi cynhyrchu Canllawiau Atodol i'r Maes Llafur Cytûn. Roedd y rhain yn cynnwys Proformas Taflenni Cynllunio, ynghyd ag enghreifftiau wedi'u gweithio o gynlluniau gwersi ar gyfer yr Adfent a'r Nadolig, a'r Pasg Iddewig, o Gyfnod Allweddol 1 drwodd i Gyfnod Allweddol 4. Roedd fframwaith amlinellol ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar, yn ymwneud â Chanlyniadau Dysgu Dymunol ACCAC y Maes Llafur Cytûn wedi'i gynnwys hefyd, ond fe benderfynwyd dal ei ddatblygu ymhellach yn ôl o ystyried y diwygio arfaethedig ar Gwricwlwm y Blynyddoedd Cynnar gan ACCAC.

Bu'r Gweithgor hefyd yn parhau i baratoi'r Cyfarwyddyd ar Asesu yn y pecyn AG, a oedd i gynnwys cyfarwyddyd cyffredinol ar Asesu mewn AG, ynghyd ag eglurhad defnyddiol ar y Lefelau mewn perthynas â gofynion y Maes Llafur Cytûn, enghreifftio safonau gan ddefnyddio gwaith plant (wedi'i anodi yn ôl y Disgrifiadau Lefel), a modelau cofnodi cyrhaeddiad mewn AG.

Y gobaith oedd y byddai'r pecyn yn cael ei ddosbarthu cyn diwedd tymor yr haf, neu fel arall byddai'n cael ei ddarparu – ar y cyd â HMS i athrawon – ar ddechrau tymor yr hydref. Hysbyswyd ysgolion hefyd o'r Defnyddiau Asesu Dewisol sydd ar y gweill ar gyfer AG yn cael eu cynhyrchu gan ACCAC.

Roedd yr aelodau hefyd yn falch o glywed bod y Llawlyfr AG a gynhyrchwyd gan AALl Conwy i'w ddiwygio i fod yn berthnasol i Faes Llafur Cytûn Sir Ddinbych, a bod ysgolion Conwy hefyd i dderbyn copïau o ddefnyddiau Cyfarwyddyd Atodol Sir Ddinbych/ Sir y Fflint/Wrecsam wedi'u diwygio'n briodol ar gyfer eu Maes Llafur Cytûn hwy.

Y gobaith oedd y byddai modd gallu cynnal y lefel yma o gefnogaeth i athrawon drwy weithgareddau Cyd-weithgor yr Athrawon, ar yr amod bod y cyllid a'r cyfle yn parhau.

## (b) Safonau mewn Addysg Grefyddol

Yn anarferol, nid oedd dim Adroddiadau Arolygu i CYSAG eu hystyried eleni. Ychydig ysgolion a Arolygwyd yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn, ac ni fu hi'n bosibl dadansoddi adroddiadau'r ysgolion hynny yn ail hanner y flwyddyn mewn pryd ar gyfer cyfarfodydd CYSAG. O ganlyniad roedd y rhain wedi'u rhoi yng nghyfarfod Tymor yr Hydref.

Er hynny, adolygwyd a thrafodwyd tabl manwl o ganlyniadau arholiad (Atodiad 1) gan CYSAG. Roedd yr aelodau wedi'u plesio bod nifer ymgeiswyr TGAU wedi codi o ryw 28 o ddisgyblion, ond yn siomedig bod y ganran o raddau A* - C wedi gostwng o bron 10%, i

49.2%. At ei gilydd bu'r canlyniadau'n siomedig a byddai ysgolion ac adrannau unigol yn ymchwilio i'r rhesymau am y gyfradd perfformio is. At ei gilydd bu'r gostyngiad mwyaf yn y perfformiad gan fechgyn (gostyngiad o 18%), ac roedd perfformiad y merched hefyd wedi gostwng o 5%.

Yn y Cwrs Byr TGAU, roedd niferoedd wedi codi eto o 167 o ymgeiswyr ychwanegol, ac roedd y ffigurau'n ddymunol gyda 66.2% A* - C, a oedd yn 4% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd yr aelodau'n falch bod y cwrs newydd yma'n profi'n boblogaidd ac yn llwyddiannus.

Yn Lefel A, roedd nifer yr ymgeiswyr wedi'i gynnal, ac roedd yr aelodau wedi'u plesio bod canran y graddau A – C wedi codi ym mhob un o'r pedair ysgol gydag ymgeiswyr o'r fath, yn arwain at ganlyniad AALl o 85.7% - yn arwyddocaol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd y niferoedd yn fach wrth gwrs, gyda chyfanswm o 14 ymgeisydd yn unig wedi ymgeisio.

O ran ymgeiswyr TCA, roedd y canlyniadau wedi parhau i fod yn gymeradwy, gyda chyfradd pasio o 100% a chyfanswm o 57 o ymgeiswyr.

Wrth drafod y canlyniadau, roedd yr aelodau'n ymwybodol o'r newidiadau aruthrol yn y cyrsiau yr oedd ysgolion uwchradd wedi'u hwynebu yn y blynyddoedd diweddar. O ganlyniad, rhoddwyd dadansoddiad i'r aelodau o'r prif gyrsiau a'u cynnwys ar ffurf ddiagramatig, i helpu CYSAG i fod yn ymwybodol o gynnwys y cyrsiau newydd. Roedd yr ystyriaeth yn ymestyn hefyd i fater staffio AG mewn ysgolion uwchradd, ac effeithiau defnyddio staff nad ydynt yn arbenigwyr i gyflwyno gwersi AG a dosbarthiadau arholiad Astudiaethau Crefyddol.

**(c) Cydaddoli/Datblygiad YMCD**

Eto, mae'r ffaith nad oedd Adroddiadau Arolygu ar gael yn ystod y cyfnod yn atal unrhyw sylwadau ar y ddarpariaeth.

Er hynny, wrth ystyried y pwysau ar ysgolion o ran darparu gweithredoedd dyddiol o gydaddoli, cytunodd CYSAG i'r AALl drafod tanysgrifiad is i PfP Publishers ar gyfer ei ysgolion, ac wrth hysbysu ysgolion o'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer cydaddoli, yn cynnwys rhai gwefannau gyda defnyddiau o safon.

Hysbyswyd yr aelodau hefyd fod gan ACCAC brosiect ar y gweill ar Gydaddoli.

**(d) Darpariaeth HMS**

Roedd rhaglen o gyrsiau wedi'i darparu ar gyfer athrawon, ac roedd wedi'i dyfeisio mewn ymateb i'r anghenion a glustnodwyd mewn gwybodaeth a gasglwyd gan swyddog GEST yr AALl, y blaenoriaethau a glustnodwyd gan yr ysgolion eu hunain, Arolygydd/ Ymgynghorydd AG, ac fel yr awgrymwyd gan fentrau lleol a chenedlaethol.

Fel arfer, roedd cyngor ar ddulliau addysgu ac ar adnoddau yn rhan sylweddol o HMS, yn ogystal ag yn ystod ymweliadau ag ysgolion gan Arolygydd/Ymgynghorydd AG.

**Ymgynefino â'r Maes Llafur Cytûn Diwygiedig (Cynradd)**
26ain a'r 28ain Medi 2001
*Darparwr:* Gavin Craigen, Arolygydd/Ymgynghorydd AG
9 ysgol yn Sir Ddinbych wedi cymryd rhan
(Cwrs wedi'i rannu ar draws 3 AALl yng Ngogledd-Ddwyrain Cymru)

**Penaethiaid AG Diwrnod Ymgynghori a Rhannu (Uwchradd)**
27ain Medi 2001
*Arweinydd:* Gavin Craigen, Arolygydd/Ymgynghorydd AG

7 ysgol yn Sir Ddinbych wedi cymryd rhan
(Cwrs wedi'i rannu ar draws 4 AALl yng Ngogledd-Ddwyrain Cymru)

**Sut i fod yn Gydlynydd AG Cynradd Effeithiol**
5ed a'r 20fed Chwefror 2002
*Darparwr:* Gavin Craigen, Arolygydd/Ymgynghorydd AG

5 ysgol yn Sir Ddinbych wedi cymryd rhan
(Cwrs wedi'i rannu ar draws 4 AALl yng Ngogledd-Ddwyrain Cymru)

**Defnyddio a Datblygu Sgiliau Allweddol mewn AG (Cyfnod Allweddol 3 & 4)**
15ed Mawrth 2002
*Darparwr:* Lat Blaylock, Swyddog Gweithredol, Cyngor Proffesiynol AG

7 ysgol yn Sir Ddinbych wedi cymryd rhan
(Cwrs wedi'i rannu ar draws 4 AALl Gogledd-Ddwyrain Cymru)

Yn ogystal, mewn cydweithrediad â Chymdeithas AG yr Athrawon, cynigiwyd y 'sesiynau ar ôl ysgol' ychwanegol canlynol hefyd:

**Erthyglau Ffydd (Uwchradd) [*]**
3ydd a'r 4ydd Hydref 2001
*Darparwyr:* Leslie a Christine Howard, Erthyglau Ffydd

3 ysgol yn Sir Ddinbych wedi cymryd rhan
(Cwrs wedi'i rannu ar draws 4 AALl Gogledd-Ddwyrain Cymru)

**Crefydd mewn Tystiolaeth (Cynradd) [*]**
10fed a'r 11eg Hydref 2001
*Darparwyr:* Peter Else, Crefydd mewn Tystiolaeth a Gavin Craigen, Arolygydd/ Ymgynghorydd AG

5 ysgol yn Sir Ddinbych wedi cymryd rhan
(Cwrs wedi'i rannu ar draws 4 AALl Gogledd-Ddwyrain Cymru)

***[*]** Dau ddiwrnod o arddangosfeydd agored oedd y ddau sesiwn yma – i athrawon (unrhyw gyfnod) weld arteffactau a thrafod eu pynciau llosg gyda'r darparwyr – a sesiwn HMS ar ôl ysgol ar gyfer y cyfnod fel y dywedwyd.*

**Y CD Rom "Cristnogion" a'i Botensial yn yr Ystafell Ddosbarth**
25ain Chwefror 2002
*Darparwr:* David Sutton Jones, o REACT Multimedia

7 ysgol yn Sir Ddinbych wedi cymryd rhan
(Cwrs wedi'i rannu ar draws 4 AALl Gogledd-Ddwyrain Cymru)

**Ymweld â'r Ganolfan Ddiwylliannol Islamaidd, Y Rhyl, gyda Grwpiau Ysgol**
23ain Ebrill 2002
*Darparwyr:* Y Gymuned Foslemaidd yn y Ganolfan

12 ysgol yn Sir Ddinbych wedi cymryd rhan
(Cwrs wedi'i rannu ar draws 4 AALl Gogledd-Ddwyrain Cymru)

*Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys sesiynau HMS a gynhaliwyd mewn ysgolion unigol neu gonsortia o ysgolion fel y'u trefnwyd gyda'r Arolygydd/Ymgynghorydd yn uniongyrchol.*

**(e) Materion Eraill**

**1. Adnoddau**

Yn ystod y flwyddyn trodd nifer o drafodaethau o gylch adnoddau ar gyfer AG a Chydaddoli.

(i) Roedd aelodau wedi trafod ac wedi gofyn am wybodaeth bellach ar y Prosiect Luc, ac er y deellir ei fod wedi symud ymlaen, nid oedd dim gwybodaeth neu gefnogaeth bellach gan CYSAG wedi'i darparu nac wedi'i cheisio. Cytunodd yr aelodau i hysbysu ysgolion o'i fodolaeth unwaith yr oeddid wedi trefnu bod y defnydd ar gael.

(ii) Yn dilyn cais gan gynrychiolwyr eglwysi Cristnogol yn yr ardal, roedd copïau o'r fideo a'r llyfryn a oedd yn mynd gydag ef Iesu: Dyn y Milflwydd, wedi'u rhoi i'r AALl i'w dosbarthu i bob ysgol yn yr AALl. (Darparwyd fersiynau Cymraeg o'r fideo i ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog).

(iii) Yn dilyn y cyflwyniad gan Banel Ymgynghorol Cenedlaethol AG i Gymdeithas Cymru CYSAGau, ailbrintiwyd y ddogfen, Addysg Grefyddol ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol, a'i dosbarthu i bob ysgol yn yr AALl.

**2. ACCAC**

Trafododd yr aelodau fersiwn derfynol y ddogfen Arolwg y Maes Llafur Cytûn, er ei bod wedi'i chyhoeddi ar ôl y Maes Llafur Cytûn. Bu hi'n bleserus nodi bod y gweithgor, yn dilyn y cyfarwyddyd gan CYSAG wedi iddo drafod fersiwn ddrafft y ddogfen ACCAC, wedi ymgorffori llawer nodwedd o'i gyngor yn y Maes Llafur Cytûn.

Derbyniodd ac ystyriodd yr aelodau yr Arolwg o Adroddiadau CYSAG Blynyddol 1998 – 1999 ac 1999 – 2000. Eto, roedd yr aelodau wrth eu bodd o weld crybwyll Sir Ddinbych mewn ffordd ganmoliaethus mewn nifer o adrannau.

Roedd CYSAG wedi gofyn am anfon llythyr at Brif Weithredwr ACCAC ynglyn â phwysigrwydd sicrhau bod AG a datblygiad ysbrydol a moesol yn cael eu cynnwys mewn

unrhyw ddiwygiad ar Gwricwlwm y Blynyddoedd Cynnar, yn ogystal â gofyn am eglurhad ar y gofynion cyfreithiol o ran AG yn yr oedrannau cyn y cwricwlwm cenedlaethol fel y'u nodwyd yn nogfen Adolygu ACCAC. Roedd ateb wedi'i dderbyn yn dweud y byddai cwricwlwm newydd y Blynyddoedd Cynnar yn mynd i'r afael â mater AG a datblygiad ysbrydol/moesol, a bod rhaid darparu AG i bob disgybl a oedd wedi'i gofrestru mewn ysgol, ni waeth am eu hoedran.

Roedd yr aelodau wedi cytuno i awgrym y Gweithgor i ddal datblygu pellach ar gyfarwyddyd y Blynyddoedd Cynnar yn ôl o'r Maes Llafur Cytûn hyd nes byddai'r gorchmynion newydd oddi wrth ACCAC ar gael.

**3. CCCYSAG**

Roedd CYSAG wedi parhau ei aelodaeth o'r Gymdeithas ac wedi derbyn papurau ac adroddiadau ym mhob cyfarfod.

Roeddid wedi trefnu bod copïau o'r cyflwyniadau i CCCYSAG oddi wrth NAPFRE, yn cynnwys y ddogfen AG ac ABCh, a hefyd ddefnyddiau'r Dulliau Addysgu a Dysgu Amrywiol ar gael i ysgolion yn yr AALl. Roedd yr aelodau'n ganmoliaethus ynghylch ansawdd y cyflwyniadau hyn, ac roedd y cynrychiolwyr a fu'n bresennol wedi gwneud hyn yn glir i CCCYSAG.

Roedd yr aelodau wedi cymryd diddordeb arbennig hefyd yn nhrafodaethau CCCYSAG gyda Choleg y Drindod Caerfyrddin ynghylch darparu Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon (ITT) trwy gyfrwng y Gymraeg, ac roeddynt wedi treulio peth amser yn trafod materion yn ymwneud â hyfforddiant ac adnoddau ar gyfer AG yn yr iaith Gymraeg.

Roedd CYSAG yn falch hefyd y gofynnwyd iddo anfon cynrychiolwyr i'r Symposiwm a gynhaliwyd yn Llanidloes, a derbyniodd adroddiadau ar y cyfarfod gyda diddordeb. Maent yn aros adroddiad terfynol y diwrnod.

Roedd yr aelodau wrth eu bodd hefyd o glywed am y cyfarfod da a gynhaliwyd gyda'r Gweinidog dros Addysg yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, a gynhaliwyd drwy CCCYSAG, NAPFRE a CEMW. Ystyrid bod natur gadarnhaol y cyfarfod, didwylledd ac ymwybyddiaeth y Gweinidog, ac agor dirprwyaeth flynyddol, yn ganlyniad llwyddiannus iawn.

**(f) Atodiadau:**

Atodiad I: Tabl Canlyniadau Arholiadau (fel y'u cyflwynwyd i CYSAG 31/01/02)

Atodiad II: Dyddiadau Cyfarfodydd CYSAG
08/10/01; 31/01/02; 05/07/02

Atodiad III: Aelodaeth CYSAG

Atodiad IV: Rhestr y Mudiadau sy'n derbyn yr adroddiad
ACCAC
Holl ysgolion a cholegau yr AALl
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Canolfan AG Genedlaethol Cymru
Pob AALl yng Nghymru

Esgobaeth Llanelwy
Esgobaeth Wrecsam
Coleg y Drindod Caerfyrddin
Y Gynghrair Efengylaidd
CCCYSAG

# Arolwg o Safonau ac o Ddarpariaeth ar ddiwedd cyfnod o bum mlynedd
# Sir Ddinbych SACRE 1997 – 2001

Ar gyfer SACRE 17 Hydref 2002

Mae'r arolwg o safonau ar ddiwedd cyfnod o bum mlynedd yn seiliedig ar ddadansoddiad a grynhowyd o'r 36 o Adroddiadau Arolwg a ymdriniwyd â hwy yn ystod y cyfnod o bum mlynedd, a'r tabl o ganlyniadau arholiadau.

## ADDYSG GREFYDDOL

### Adroddiadau'r Arolwg:

***Safonau Cyrhaeddiad***

| | **Da Iawn** | | | | **Da** | | | | **Boddhaol i Dda** | | | | **Boddhaol** | | | | **Anfoddhaol** | | | | **Ni roddwyd graddfa** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 97 | 98 | 99 | 00 | 97 | 98 | 99 | 00 | 97 | 98 | 99 | 00 | 97 | 98 | 99 | 00 | 97 | 98 | 99 | 00 | 97 | 98 | 99 | 00 |
| **1** | - | - | - | - | 4 | 4 | 1 | 2 | 2 | 2 | - | - | 4 | 3 | 3 | - | - | - | - | 1 | - | 1 | - | - |
| **2** | - | - | - | - | 4 | 3 | 1 | 1 | 2 | 2 | 1 | - | 2 | 3 | 3 | - | - | - | - | 2 | - | 1 | - | - |
| **3** | - | - | - | - | 1 | 2 | 1 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 1 |
| **4** | - | - | - | - | - | 1 | 1 | 2 | - | - | - | - | - | - | 1 | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **5** | - | - | - | - | - | - | 1 | 2 | - | - | - | - | - | 1 | 1 | - | - | - | - | - | - | - | - | - |

*Noder: Ni roddwyd unrhyw fanylion ar gyfer SACRE yn 1996; Ni chyflwynwyd unrhyw adroddiadau yn 2001*

Crynodeb:

| | **Da Iawn** | **Da** | **Boddhaol i Dda** | **Boddhaol** | **Anfoddhaol** | **Ni roddwyd graddfa** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | 0 | 11 | 4 | 10 | 1 | 1 |
| **2** | 0 | 9 | 5 | 8 | 2 | 1 |
| **3** | 0 | 4 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| **4** | 0 | 4 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| **5** | 0 | 3 | 0 | 2 | 0 | 0 |
| **Cyf:** | *0* | *31* | *9* | *21* | *3* | *3* |
| **%:** | ***0%*** | ***46.3%*** *(48.4%)** | ***13.4%*** *(14.1%)** | ***31.3%*** *(32.8%)** | ***4.5%*** *(4.7%)** | ***4.5%*** |

* *Pan na roddwyd graddfa, rhoddir y ganran heb yr adroddiadau*

Mewn perthynas â'r nodweddion Da a nodwyd (ar gyfer dwy neu ragor o ysgolion) yn yr Adroddiadau Arolwg, cofnodwyd y sylwadau canlynol ar draws y cyfnod o bum mlynedd ar gyfer Addysg Grefyddol:

| **Nodweddion cadarnhaol a nodwyd o fewn yr Adroddiadau Arolwg** | **Nifer yr** |
|---|---|

| (AG) | Ysgolion |
|---|---|
| Ymdrin yn briodol â chrefyddau'r byd ac eithrio Cristnogaeth | 34 Ysgol |
| Gwybodaeth Dda / amgyffred / profiad o storïau'r Beibl / Y Beibl | 31 Ysgol |
| Gwybodaeth Dda / amgyffred / y gallu i gofio – Cristnogaeth | 24 Ysgol |
| Gwybodaeth Dda / amgyffred ar agweddau o grefydd / cysyniadau | 13 Ysgol |
| Defnyddio ymwelwyr / ymweliadau'n gadarnhaol mewn AG | 11 Ysgol |
| Y gwaith yn y Cynllun AG yn perthyn yn agos i'r Maes Llafur a gytunwyd arno | 8 Ysgol |
| Y cynnwys am Gristionogaeth / y ffocws yn y gwaith AG yn briodol | 8 Ysgol |
| Y disgyblion yn gallu siarad ynghylch materion AG gyda hyder / mewn ffordd aeddfed | 6 Ysgol |
| Ymateb da / trafod AG gan ddisgyblion yn y gwersi | 6 Ysgol |
| Cyfle da i drafod yn y gwersi | 6 Ysgol |
| Rhoi cyfle i ystyrid AG | 5 Ysgol |
| Dim gwendidau amlwg | 5 Ysgol |
| Gwaith ysgrifenedig AG o ansawdd / natur dda | 4 Ysgol |
| Amrywiaeth o ddulliau mewn AG | 3 Ysgol |
| Ymwybod â gwerthoedd moesol / da a drwg | 2 Ysgol |
| Y disgyblion AG yn datblygu'u cred eu hunain | 2 Ysgol |
| Y disgyblion yn ysgrifennu / deall gweddïau | 2 Ysgol |
| Canlyniadau da mewn arholiadau AG | 2 Ysgol |

Mewn perthynas â'r nodweddion negyddol, cofnodwyd y meysydd o bryder canlynol yn yr Adroddiadau Arolwg ar draws y cyfnod o bum mlynedd mewn AG

| **Meysydd o bryder a nodwyd yn yr Adroddiadau Arolwg (AG)** | **Nifer yr Ysgolion** |
|---|---|
| Cynhwysedd lefel o ymwybod o grefyddau eraill ac eithrio Cristnogaeth | 8 Ysgol |
| Y gwaith ysgrifenedig yn annigonol / y gwaith ysgrifenedig yn rhy elfennol | 4 Ysgol |
| Dyfnder y cynnydd mewn AG yn brin | 2 Ysgol |

**Canlyniadau'r Arholiadau**

Dyma'r canrannau ar gyfer A* - C (TGAU), ar gyfer A – C (Lefel A ac AS) a'r raddfa Llwyddo (COEA):

| | **1996** | **1997** | **1998** | **1999** | **2000** | **2001** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **TGAU (pawb)** | 37.9 | 62.0 | 51.9 | 54.2 | 59.5 | 49.2 |
| **(Bechgyn)** | 31.1 | 44.8 | 38.7 | 40.5 | 49.4 | 30.9 |
| **(Merched)** | 42.2 | 66.4 | 55.8 | 58.4 | 64.9 | 59.6 |
| **TGAU (cwrs byr) (pawb)** | ddim ar gael | -- | -- | 60.4 | 87.4 | 66.2 |
| **(Bechgyn)** | ddim ar gael | -- | -- | -- (*) | -- (*) | 54.5 |
| **(Merched)** | ddim ar gael | -- | -- | -- (*) | -- (*) | 75.3 |
| [redacted] | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Lefel A** | 48.6 | 50.0 | 53.8 | 27.8 | 28.6 | 85.7 |
| **Lefel AS** | -- | 33.3 | 0.0 | 50.0 | -- | |
| | | | | | | |
| **COEA** | -- | -- | -- | 91.7 | -- | 100 |

*(*) Ni chofnodwyd y ffigyrau, oherwydd y nifer fach o ymgeiswyr*
*DDIM AR GAEL = Ni chynigiwyd y cyrsiau ar y pryd*
**--** *yn golygu dim ymgeiswyr*

## DATBLYGIAD MOESOL, CYMDEITHASOL A DIWYLLIANNOL

**Adroddiadau'r Arolwg**

***Safonau Darpariaeth:***

| **Da Iawn** | **Da (peth yn Dda Iawn)** | **Da** | **Cyflwyn-wyd yn dda** | **Cyflwyn-wyd yn llwydd-iannus** | **Cyflwynwyd yn foddhaol** | **Boddhaol / Priodol** | **anfoddhaol / cyfyngedig** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | 2 | 10 | 2 | 1 | 6 | 9 | 2 |
| *11.1%* | *5.6%* | *27.8%* | *5.6%* | *2.8%* | *16.7%* | *25%* | *5.6%* |
| ***11.1%*** | ***16.7%*** | ***44.4%*** | ***50%*** | ***52.8%*** | ***69.4%*** | ***94.4%*** | ***100%*** |

*(Tabl Crynhoi)*

Nodwyd y nodweddion cadarnhaol (ar gyfer dwy neu fwy o Ysgolion) yn yr Adroddiadau Arolwg am y cyfnod o bum mlynedd ar gyfer SMSC fel a ganlyn:

| **Y nodweddion cadarnhaol a nodwyd yn yr Adroddiadau Arolwg: (SMSC)** | **Nifer yr Ysgolion** |
|---|---|
| Hyrwyddo / ysgogi gwerthoedd ac agweddau da | 28 Ysgol |
| Cyfraniadau cadarnhaol i SMSC / hyrwyddo SMSC drwy CW | 24 Ysgol |
| Cyfle i ystyried yn briodol / yn ystyriol | 16 Ysgol |
| Ansawdd y berthynas yn yr ysgol yn dda. | 12 Ysgol |
| Sylw Da / priodol i'r Cwricwlwm Cymreig | 12 Ysgol |
| Cymorth i elusennau ac i achosion da | 11 Ysgol |
| Gwybodaeth ac ymwybod o ddiwylliannau ac o grefyddau eraill | 10 Ysgol |
| Gwybodaeth / amgyffred ac ymwybyddiaeth o dda ac o ddrwg | 9 Ysgol |
| Cyfle ar gyfer gweithio ar ei liwt ei hunan a chyfrifoldeb | 8 Ysgol |
| Ethos da / cadarnhaol / gwarchodol yn yr ysgol | 8 Ysgol |
| Ansawdd da y cydaddoli | 6 Ysgol |
| Cwrdd â / cydymffurfio â gofynion statudol ar gyfer cydaddoli | 6 Ysgol |
| Defnyddio ymwelwyr / ymweliadau'n briodol | 6 Ysgol |
| Cysylltiadau da gyda'r eglwys / cymuned leol | 5 Ysgol |
| Darpariaeth dda ar gyfer datblygiad cymdeithasol | 4 Ysgol |
| Darpariaeth / cyfle ar gyfer cydweithredu a gwaith grwpiau mewn pynciau | 4 Ysgol |

| | |
|---|---|
| Agwedd y disgyblion a'u hymateb at ddysgu'n dda, cadarnhaol | 3 Ysgol |
| Elfennau / ffocws Cristionogol priodol mewn cydaddoli | 3 Ysgol |
| Cyfle i'r disgyblion gymryd rhan mewn cydaddoli | 3 Ysgol |
| Yr athrawon yn esiampl | 3 Ysgol |
| Darpariaeth dda ar gyfer datblygiad diwylliannol | 3 Ysgol |
| Cyfle ar gyfer datblygiad ysbrydol ar draws y cwricwlwm | 3 Ysgol |
| Cael profiad o ryfeddu | 2 Ysgol |
| Y disgyblion yn ymateb yn dda i ddarpariaeth SMSC | 2 Ysgol |
| Rhoi cyfle ar gyfer gweithgareddau all gwricwlaidd | 2 Ysgol |
| Y datblygiad moesol yn dda | 2 Ysgol |
| Awyrgylch a'r ethos yn dda yn y cydaddoli | 2 Ysgol |

Mewn perthynas â'r nodweddion negyddol, nodwyd y meysydd o bryder canlynol yn yr Adroddiadau Arolwg ar gyfer SMSC am y cyfnod o bum mlynedd:

| **Meysydd pryder yn yr Adroddiadau Arolwg (SMSC)** | **Nifer yr Ysgolion** |
|---|---|
| Diffyg ufuddhau i'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd | 5 Ysgol |
| Cynnwys / ystyried diwylliant a credoau eraill | 3 Ysgol |
| Amser ar gyfer ystyried AG yn annigonol | 2 Ysgol |
| Cyfraniadau'r disgyblion at addoliad dyddiol yn annigonol | 2 Ysgol |
| Y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad diwylliannol y disgyblion yn annigonol | 2 Ysgol |

# DADANSODDIAD O ADRODDIADAU AROLYGU

***11$^{eg}$ Detholiad***

## CYSAG Sir Ddinbych: 17$^{eg}$ Hydref 2002

<table>
<tr><th>Ysgol</th><th>Dyddiadau</th><th>Arolygydd Cofrestredig</th><th>Arolygydd YMCD</th><th>Arolygydd AG</th></tr>
<tr><td>Ysgol Gynradd WR Yr Eglwys yng Nghymru Trefnant</td><td>8$^{fed}$ – 10$^{fed}$ Hydref 2001</td><td>Mr J. Harris</td><td>M.D. Jones</td><td>M.D. Jones</td></tr>
<tr><td colspan="5">Ysgol Wirfoddol Reoledig fechan yr Eglwys yng Nghymru yw hon, yn gwasanaethu cymuned wledig gyda disgyblion wedi'u tynnu o ardal eang yn rhan isaf dyffryn Clwyd. Mae'r ardal hefyd yn ardal gymudo, a hithau'n agos at yr A55 brysur. Cynyddodd niferoedd y disgyblion yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, ac maent yn amrywio rhwng 50 + 60. Ar gyfer plant 3 – 11 mlwydd oed y mae'r ddarpariaeth addysgol, ac adeg yr Arolygiad roedd yno 52 disgybl amser llawn ac 8 disgybl rhan-amser. Mae'r ystod gallu llawn i'w gael yn yr ysgol, gyda llawer galluog ac ychydig llai galluog; mae 5 disgybl ar y Gofrestr AAA, yn cynnwys 1 gyda Datganiad. Ni ddaw dim o'r plant o gartrefi Cymraeg eu hiaith, a daw 8% o gefndir ethnig heb fod yn wyn. Mae gan 15% hawl i brydau ysgol am ddim. Adeg yr Arolygiad roedd 2.5 o athrawon cyfwerth amser llawn mewn swydd.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Cefn Meiriadog</td><td>10$^{fed}$ – 12$^{fed}$ Rhag 2001</td><td>Mrs S.M. Barnes</td><td>M. Meredith-Jones</td><td>M. Meredith-Jones</td></tr>
<tr><td colspan="5">Ysgol fechan yw hon yn nyffryn Cefn Meiriadog, gyda'r disgyblion wedi'u tynnu'n bennaf o'r pentrefi o gwmpas. Roedd nifer y disgyblion adeg yr Arolygiad yn 51, gyda'r ieuengaf yn rhan-amser; cynnydd mawr ers yr Arolygiad diwethaf. Ar gyfer plant 3 – 11 mlwydd oed y mae'r ddarpariaeth addysgol, gyda rhyw 30% ag anghenion AAA, a 2 â Datganiad. Maent i gyd yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf. Mae gan 12% hawl i brydau ysgol am ddim. Adeg yr Arolygiad roedd 2.5 o athrawon cyfwerth amser llawn.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Babanod Bodnant, Prestatyn</td><td>14$^{eg}$ – 17$^{eg}$ Ionawr 2002</td><td>Mrs A. Dawson</td><td>Eirian Hughes</td><td>Eirian Hughes</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae'r ysgol hon wedi'i lleoli yn nhref lan môr Prestatyn, gan dynnu mwyafrif y disgyblion o'r ardal gyfagos o amgylch yr ysgol. Adeg yr Arolygiad roedd 225 o ddisgyblion mewn addysg amser llawn, gyda 60 yn y feithrinfa yn rhan-amser. Daw'r disgyblion o'r ystod lawn o allu academaidd a chefndir cymdeithasol. Mae'r rhan fwyaf yn dechrau yn y feithrinfa gyda sgiliau cymdeithasol a mathemategol ymhell islaw'r cyfartaledd, a sgiliau iaith gwael, gyda llawer o anawsterau iaith a lleferydd yn amlwg. Mae gan 27% o'r disgyblion hawl i brydau ysgol am ddim, ac mae gan 29% anghenion AAA. Maent i gyd yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf. Adeg yr Arolygiad roedd 10 o athrawon amser llawn a 3 o athrawon rhan-amser mewn swydd.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Caer Drewyn, Corwen</td><td>21$^{ain}$ – 23$^{ain}$ Ionawr 2002</td><td>Dr Stuart Humphreys</td><td>Stuart Humphreys</td><td>Elaine Perry</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn ardal Clawdd Poncen Corwen, ac ysgol cyfrwng Saesneg ydyw, gyda disgyblion o gartrefi Saesneg eu hiaith. Mae'r ystod gallu llawn yn amlwg yn yr ysgol, a oedd adeg yr Arolygiad â 110 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 mlwydd oed, a 14 disgybl yn y feithrinfa yn y prynhawniau. Mae'r dalgylch dan anfantais economaidd. Mae 28% o'r disgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim, ac mae 35% ar y Gofrestr AAA, yn cynnwys 4 sydd â Datganiad. Adeg yr Arolygiad roedd 5 o athrawon amser llawn ac 1 rhan-amser mewn swydd.</td></tr>
<tr><td>Ysgol y Castell, Rhuddlan</td><td>15$^{fed}$ – 18$^{fed}$ Ebrill 2002</td><td>Dr Eric Peagam</td><td>Eric Peagam</td><td>Eric Peagam</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn nhref fechan Rhuddlan, ac yn cymryd disgyblion o 3 – 11 mlwydd oed o'r dref. Adeg yr Arolygiad roedd 193 o ddisgyblion yn ei mynychu'n llawn amser, a 26 yn y feithrinfa yn y boreau yn unig. Mae'r teuluoedd yn tueddu i fod yn fwy Saesneg na Chymraeg, a dônt o bob lefel o gefndir economaidd-gymdeithasol, gyda nifer ychydig uwch na'r cyfartaledd o ddisgyblion â hawl i brydau ysgol am ddim. Mae yna nifer arwyddocaol o ddisgyblion y mae'r AAA yn gofalu amdanynt, ac mae bron un rhan o bump o'r disgyblion wedi'u dynodi fel rhai sydd ag anghenion AAA, y mae gan 3 ohonynt Ddatganiad. Mae bron y cyfan o'r disgyblion o ethnigrwydd gwyn. Adeg yr Arolygiad roedd 9 o athrawon amser llawn a 2 o athrawon rhan-amser mewn swydd.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Penmorfa, Prestatyn</td><td>24$^{ain}$ – 28$^{ain}$ Mehefin 2002</td><td>Mr R. A. Isaac</td><td>Sandra Mewies</td><td>Brian G. Lewis</td></tr>
<tr><td colspan="5">Adeg yr Arolygiad roedd gan yr ysgol fawr iawn yma ym Mhrestatyn ryw 670 o ddisgyblion amser llawn, gyda 44 yn y feithrinfa yn rhan-amser. Daw rhan fwyaf y plant o'r ardal gyfagos. Mae 25% o'r disgyblion o gefndir gweddol difreintiedig, gyda 17% â hawl i brydau ysgol am ddim. Mae poblogaeth y disgyblion yn wyn gan mwyaf ac yn siarad Saesneg, ond mae 1% o gefndir ethnig lleiafrifol, ac mewn ychydig gartrefi mae rhai teuluoedd yn siarad Gaeleg, Cantoneg, Thai, Bengaleg, Wrdw, neu Bwnjabeg. Mae 13% o'r disgyblion ar y Gofrestr AAA, yn cynnwys 4 sydd â Datganiad. Adeg yr Arolygiad roedd 28 o athrawon, yn cynnwys 1 athro cynorthwyo AAA, 1 Cynorthwy-ydd Dosbarth Cyffredinol, 2 Weinyddes Feithrin mewn swydd.</td></tr>
</table>

Cyfanswm o 6 ysgol.

## DATBLYGIAD YSBRYDOL, MOESOL, CYMDEITHASOL A DIWYLLIANNOL

*Crybwyllwyd mewn Materion Allweddol:* **0 ysgol**

*Nid oedd yr un ysgol â YMCD neu Gydaddoli fel Mater Allweddol.*

SYLWADAU CADARNHAOL:

Darparu Datblygiad YMCD: **6 ysgol**

- YMCD yn dda iawn *(Babanod Bodnant)*
- Datblygiad ysbrydol a moesol yn dda iawn; cymdeithasol a diwylliannol *(Caer Drewyn)*
- Datblygiad YMCD yn dda; mae safonau'n uchel o ganlyniad *(Cefn Meiriadog)*
- YMCD yn dda at ei gilydd *(Y Castell)*
- Datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol yn dda; diwylliannol yn foddhaol *(Penmorfa)*
- Datblygiad moesol a chymdeithasol yn dda; diwylliannol yn foddhaol *(Trefnant)*

Cyfleoedd ar gyfer cyfrifoldeb a menter: **6 ysgol**

- Mae'r disgyblion hŷn yn cyflawni amryw gyfrifoldebau yn synhwyrol ac yn dangos ystyriaeth i'r disgyblion iau. Mae'r system 'Helpwr Heddiw' yn rhoi cyfle i bob disgybl ymgymryd â mân gyfrifoldebau *(Trefnant)*
- Mae'r disgyblion hynny sy'n cael cyfleoedd i ddefnyddio eu menter, megis trefnu stondinau ar gyfer y Ffair Haf, yn gwneud hynny'n aeddfed ac yn gydwybodol *(Cefn Meiriadog)*
- Rhoddir llawer o gyfleoedd i'r disgyblion yn yr ysgol ddangos arweinyddiaeth ac i gymryd cyfrifoldeb nid yn unig o fewn yr ystafell ddosbarth ond hefyd fel aelodau o gymuned ysgol. Penodir disgyblion Blwyddyn 2 fel cynghorwyr ac maent yn cwrdd â'r staff a gyda llywodraethwyr i benderfynu ar ffyrdd o sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn hapus ac yn teimlo'n werthfawr o fewn yr ysgol, yn arbennig yn ystod amser chwarae. Mae hyn yn rhoi llais gwirioneddol i'r disgyblion ym materion yr ysgol. *(Babanod Bodnant)*
- Cyflenwir disgyblion â chyfleoedd da i ymgymryd â mân gyfrifoldebau yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr ysgol, sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at fywyd yr ysgol. *(Caer Drewyn)*
- Mae'r system dai i ddisgyblion hŷn yn effeithiol wrth ddarparu teimlad o hunaniaeth gorfforaethol, gan annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb, meithrin ymdeimlad o hunaniaeth a darparu cystadleuaeth gyfeillgar. Mae'r disgyblion yn ethol eu capteiniaid a'u his-gapteiniaid eu hunain ac fe'i hystyrir yn fraint cael eich ethol *(Y Castell)*
- Ym mhob dosbarth mae'r disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb rheolaidd am ddyletswyddau, yn cynnwys rhai 'Helpwr Heddiw'. Mae disgyblion blwyddyn 6 yn cymryd cyfrifoldeb am fenthyca llyfrau a chofnodi benthyciadau fel rhan o'u cyfrifoldeb cyffredinol am y llyfrgell *(Y Castell)*
- Mae'r disgyblion yn ymgymryd ag amrywiaeth eang o dasgau megis hel sbwriel, rhedeg banc yr ysgol, a gweithredu fel swyddogion a monitoriaid. Maent yn ymateb gyda hyder ac aeddfedrwydd *(Penmorfa)*

Cwricwlwm Cymreig: **6 ysgol**

- Mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gynyddol o ddiwylliant, traddodiadau a threftadaeth Cymru *(Trefnant)*
- Mae'r Cwricwlwm Cymreig wedi ei hen sefydlu yn yr ysgol; mae'r disgyblion yn astudio gwaith arlunwyr a cherddorion Cymreig ac mae'r dimensiwn Cymreig â lle amlwg drwy'r cwricwlwm i gyd…. Mae'r defnydd o Gymraeg achlysurol yn gyson ac mae'n cyfoethogi ymwybyddiaeth y disgyblion o'u treftadaeth Gymreig *(Cefn Meiriadog)*
- Cyflwynir disgyblion i'r iaith a'r diwylliant Cymreig o'r blynyddoedd cynnar ac maent yn dod yn eu blaen yn fwyfwy yn eu dealltwriaeth drwy integreiddio'r diwylliant Cymreig ar draws y cwricwlwm, yn ogystal â thrwy wersi yn y Gymraeg *(Babanod Bodnant)*
- Mae dealltwriaeth y disgyblion o'u diwylliant eu hunain …. yn dda. Cynrychiolir dimensiwn Cymreig y cwricwlwm yn dda mewn cerddoriaeth, celf a hanes *(Caer Drewyn)*
- Mae'r ysgol yn gweithio'n galed ac yn llwyddiannus i hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Cynhaliodd yr ysgol wythnos Gymraeg lwyddiannus iawn yn ddiweddar a chyfrannodd amrywiaeth dda o weithgareddau llenyddol a cherddorol traddodiadol Gymreig at eisteddfod lwyddiannus ar Ddydd Gwyl Dewi. Mae disgyblion blwyddyn 4 yn perfformio'n rheolaidd yng Ngwyl Gelfyddydau flynyddol Sir Ddinbych yn Y Rhyl. *(Y Castell)*
- Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o ddiwylliant a threftadaeth Cymru yn foddhaol *(Penmorfa)*

<u>Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill:</u> **5 ysgol**

- Codir ymwybyddiaeth y disgyblion o fywyd mewn diwylliannau eraill drwy storïau mewn Saesneg, astudio Nepal mewn daearyddiaeth, hanes a Saesneg. Mewn AG, astudir agweddau ar Iddewiaeth ac Islam. Galluogir ac anogir y disgyblion yn effeithiol i werthfawrogi eu traddodiadau diwylliannol eu hunain ac amrywiaeth a chyfoeth diwylliannau eraill. Mae'r ysgol wedi datblygu cysylltiadau gydag ysgol wledig yn Nepal. *(Cefn Meiriadog)*
- Gŵyr y disgyblion fod crefyddau eraill ble mae gan y dilynwyr ffyrdd gwahanol o addoli ac o ddathlu achlysuron arbennig *(Babanod Bodnant)*
- Mae dealltwriaeth y disgyblion …. diwylliannau eraill yn dda *(Caer Drewyn)*
- Mae'r ysgol …. yn galluogi'r disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth briodol o'r credoau a'r arferion sy'n gysylltiedig ag amryw o ddiwylliannau a chymunedau ffydd eraill *(Y Castell)*
- Mae'r athrawon yn rhoi cyflwyniad da i'r disgyblion i werthoedd, credoau a thraddodiadau diwylliannau eraill drwy ymweliadau a thrafodaethau dosbarth *(Penmorfa)*

<u>Cadw at/hyrwyddo gwerthoedd/moesgarwch/parch:</u> **5 ysgol**

- Gwneir pob ymdrech gan y staff i hyrwyddo moesgarwch a pharch y naill at y llall ymhlith y disgyblion *(Trefnant)*
- Dengys y disgyblion barch at eiddo ac at ddisgyblaeth yr ysgol *(Cefn Meiriadog)*
- Mae'r disgyblion yn deall pwysigrwydd tegwch a gonestrwydd a dangos caredigrwydd at y disgyblion eraill, yn arbennig tuag at aelodau iau yr ysgol. *(Babanod Bodnant)*
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd cydraddoldeb, cyrhaeddiad, ymddygiad da, parch at eraill a dealltwriaeth glir o'r da a'r drwg yn llwyddiannus *(Caer Drewyn)*
- Dengys y disgyblion barch at eiddo ac at yr amgylchedd *(Penmorfa)*

<u>Ansawdd gweithredoedd o gydaddoli:</u> **4 ysgol**

- mae ansawdd y gwasanaethau yn dda iawn a gwnânt gyfraniad arwyddocaol at ddatblygiad y disgyblion ac at ethos teuluol yr ysgol *(Babanod Bodnant)*
- Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer gweithred ddyddiol o gydaddoli yn dda *(Caer Drewyn)*
- Cynhelir y gweithredoedd o gydaddoli mewn modd parchus sy'n atgyfnerthu ymwybyddiaeth y disgyblion o arwyddocâd cred ym mywydau unigolion a chymunedau *(Y Castell)*
- Mae ansawdd gwasanaethau a gweithredoedd o gydaddoli yn dda. Mae gweithredoedd o gydaddoli wedi'u trefnu'n dda a'u cynnal mewn awyrgylch cyfeillgar. Ymhelaethir yn aml ar y themâu a'r materion a godir trwy ddiwrnod yr ysgol. (*Penmorfa)*

<u>Cyfraniadau disgyblion at weithredoedd o gydaddoli:</u> **4 ysgol**

- mae'r disgyblion yn cyfrannu at ac yn parchu'r awyrgylch o barchedig ofn *(Trefnant)*
- mae'r disgyblion a'r staff yn cyfranogi'n llawn ym mhob agwedd ar y gwasanaeth *(Babanod Bodnant)*
- Mae'r disgyblion i gyd yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn cyflwyno gwasanaethau ac i fod â rhan o leiaf unwaith ym mhob un o'r pum prif wasanaeth sy'n dathlu'r Cynhaeaf, y Nadolig, Dydd Gwyl Dewi, y Pasg a'r Gwasanaeth Blynyddol i'r rhai sy'n gadael *(Y Castell)*
- Mae cyfranogiad y disgyblion mewn gweithredoedd o addoli, trwy gân, gweddi a drama, yn dda ac yn gwella'r ymdeimlad cryf o berthyn i gymuned ofalgar, sy'n amlwg mewn gwasanaethau teuluol a gefnogir yn dda *(Penmorfa)*

<u>Ansawdd perthnasoedd:</u> **4 ysgol**

- Mae perthnasoedd yn dda ac mae'r disgyblion yn cydweithredu'n dda mewn gwersi *(Trefnant)*
- Mae perthnasoedd rhwng disgyblion ac oedolion yn yr ysgol yn gyfeillgar ac yn barchus y naill at y llall. Mae perthnasoedd rhwng y disgyblion eu hunain yn gadarnhaol *(Cefn Meiriadog)*
- Mae perthnasoedd yn dda *(Caer Drewyn)*
- Mae perthnasoedd yn yr ysgol yn dda ac wedi'u seilio ar barch y naill at y llall. Rhoddir yr un gwerth ar bob disgybl *(Penmorfa)*

<u>Cyfleoedd i fyfyrio:</u> **4 ysgol**

- rhoddir digonedd o gyfleoedd i'r disgyblion fyfyrio ar eu syniadau a'u gwerthoedd eu hunain mewn perthynas ag eraill, yn arbennig yn ystod amser cylch yn CA1, Saesneg, AG a hanes *(Cefn Meiriadog)*
- Anogir disgyblion i fyfyrio ar eu bywydau a'u credoau eu hunain a rhai pobl eraill, heddiw ac yn y gorffennol *(Babanod Bodnant)*
- Mae ymateb y disgyblion i gyfleoedd i fyfyrio a gweddïo yn aeddfed a meddylgar *(Caer Drewyn)*
- Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion fyfyrio ar eu profiadau eu hunain a rhai pobl eraill ar amrywiol adegau, yn cynnwys gwasanaethau a gweddïau dosbarth. Ymestynnir y rhain yn ystod amseroedd cylch *(Penmorfa)*

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r da a'r drwg: **4 ysgol**

- mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o'r da a'r drwg ac o bwysigrwydd cyfeillgarwch; maent yn deall ac yn cydymffurfio â rheolau'r ysgol *(Trefnant)*
- Mae'r disgyblion yn gwybod y gwahaniaeth rhwng da a drwg ac yn ymateb yn gadarnhaol i'r system wobrwyo am ymdrech ac ymddygiad da *(Cefn Meiriadog)*
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo'n llwyddiannus … ddealltwriaeth glir o'r da a'r drwg *(Caer Drewyn)*
- Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth glir o'r egwyddorion sy'n gwahaniaethu'r da a'r drwg ac maent yn ymfalchïo yn eu hysgol *(Penmorfa)*

Elusennau ac achosion da: **4 ysgol**

- mae'r disgyblion yn ymwybodol o anghenion eraill ac yn helpu i godi arian at amrywiol elusennau *(Trefnant)*
- Mae'r disgyblion yn dysgu cefnogi eraill sy'n llai ffodus na hwy'u hunain drwy, er enghraifft, roddion i amrywiol elusennau cenedlaethol a rhyngwladol megis Jeans for Genes, Diwrnod Trwyn Coch, Sefydliad Marie Curie, Achub y Plant, Whizz Kidds, ac Operation Christmas Child yn Rwmania *(Cefn Meiriadog)*
- Mae'r disgyblion yn cefnogi gwaith elusennau plant yn rheolaidd (er enghraifft Achub y Plant) ac yn cymryd rhan wrth ddewis elusen pob blwyddyn ar gyfer apêl y cynhaeaf. Maent yn rhannu'r Nadolig gyda chartrefi nyrsio lleol, mudiadau'r henoed ac ysgolion arbennig lleol *(Y Castell)*
- Mae'r disgyblion yn ymwybodol o anghenion eraill, gan godi arian yn rheolaidd at elusennau lleol a chenedlaethol *(Penmorfa)*

Amcanion/Ethos cyffredinol: **3 ysgol**

- Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ynghylch yr ethos a'r gwerthoedd y mae'n ceisio eu sefydlu …. *(Babanod Bodnant)*
- Mae'r amcanion a'r gwerthoedd a fynegir yn nogfennaeth yr ysgol wedi'u sefydlu'n ymarferol ym mywyd pob dydd yr ysgol *(Caer Drewyn)*
- Mae gan yr ysgol ethos cefnogol iawn o fewn pa un y mae'r hinsawdd o barch y naill at y llall ac o edmygedd sy'n cael eu meithrin gan y pennaeth a'u cofleidio gan y staff yn cyfrannu'n dda at hunan-barch a hyder y disgyblion mewn sefyllfaoedd cymdeithasol *(Y Castell)*

Cyfraniad cydaddoli at ddatblygiad YMCD: **3 ysgol**

- Mae gwasanaethau'r ysgol gyfan a gwasanaethau dosbarth yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion *(Caer Drewyn)*
- Mae'r gwasanaethau dyddiol rheolaidd yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad ysbrydol a chymdeithasol y disgyblion *(Y Castell)*
- Mae gweithredoedd o addoli …. yn gwneud cyfraniad da at ddatblygiad YMCD y disgyblion *(Penmorfa)*

Ymateb y disgyblion i'r ddarpariaeth YMCD: **3 ysgol**

- Mae ymateb y disgyblion i'r ddarpariaeth YMCD yn dda *(Trefnant)*
- Mae'r disgyblion yn ymateb yn dda ac yn gwerthfawrogi'r awyrgylch cefnogol a gofalgar *(Trefnant)*
- Mae'r disgyblion yn ymateb yn dda iawn i'r ddarpariaeth YMCD *(Y Castell)*
- Mae ymateb y disgyblion i'r ddarpariaeth YMCD yn dda *(Penmorfa)*

Datblygiad/darpariaeth foesol (a chymdeithasol): **3 ysgol**

- Mae pwyslais mawr ar ddatblygu datblygiad moesol a chymdeithasol y disgyblion *(Babanod Bodnant)*
- Hyrwyddir ymwybyddiaeth foesol yn dda a dengys y disgyblion gryn sensitifrwydd *(Y Castell)*
- Mae'r ysgol wedi gorfod gweithio ar rai teuluoedd ar ddatblygiad cymdeithasol *(Y Castell)*
- Datblygir ymwybyddiaeth y disgyblion o foesoldeb sy'n cystadlu â'i gilydd yn dda pan wahoddir hwy i archwilio cyfyngderau moesol fel rhan o'u gwaith mewn hanes a phynciau eraill wrth iddynt archwilio materion o amryw safbwyntiau *(Y Castell)*
- Mae cyflwyniad PATHS ('Promoting Alternative and Thinking Strategies') ac Amser Cylch wedi gwneud cyfraniad da at ymwybyddiaeth gymdeithasol y disgyblion ac mae'r gweithgareddau hyn yn hyrwyddo eu datblygiad personol *(Y Castell)*
- Caiff darpariaeth dda ar gyfer datblygiad moesol ei meithrin drwy lawer agwedd ar fywyd yr ysgol *(Penmorfa)*

Ymwybyddiaeth/datblygiad cymdeithasol: **3 ysgol**

- Darperir yn dda ar gyfer ymwybyddiaeth gymdeithasol y disgyblion drwy gystadlaethau rhwng ysgolion, tripiau ysgol, ac ymweliadau preswyl *(Trefnant)*
- Gwna'r disgyblion gynnydd da mewn sgiliau cymdeithasol a rhyngbersonol *(Cefn Meiriadog)*
- Mae'r disgyblion yn elwa ar wella eu sgiliau cymdeithasol drwy holi a sgwrsio â'r oedolion lawer sy'n ymweld â'r ysgol i sôn wrthynt am amryw o bynciau i ymestyn eu dysgu, a thrwy'r gweithgareddau lawer y maent yn eu rhannu gydag ysgolion eraill *(Cefn Meiriadog)*
- Cefnogir datblygiad cymdeithasol yn dda gan y cyfle ar gyfer ymweliadau fel grwp, yn cynnwys ymweliadau preswyl. Yn arbennig mae disgyblion Blwyddyn 6 yn elwa'n gymdeithasol ar y cyfle i gymryd rhan mewn ymweliadau preswyl â Chanolfan Glan Llyn, Y Bala *(Y Castell)*

Datblygiad Diwylliannol: **3 ysgol**

- Mae datblygiad diwylliannol y disgyblion yn dda iawn ac mae'n cwmpasu sbectrwm eang o brofiadau a ddarperir gan yr ysgol *(Babanod Bodnant)*
- Cynigir cyfle i'r disgyblion brofi ystod boddhaol o gyd-destunau diwylliannol drwy'r cwricwlwm a thrwy weithgareddau allgyrsiol, mae Celf a dawns yn chwarae rhan amlwg *(Y Castell)*
- Caiff sgiliau diwylliannol y disgyblion eu gwella ….. mewn pynciau megis AG, cerddoriaeth, celf a hanes *(Penmorfa)*

Cyfleoedd ar gyfer cydweithredu/cydweithio: **3 ysgol**

- Mae'r disgyblion yn gweithio'n dda mewn parau a grwpiau bychain. Mae'r disgyblion hŷn yn gweithio'n dda iawn yn unigol *(Cefn Meiriadog)*
- Cyflenwir y disgyblion â chyfleoedd da i weithio mewn parau a grwpiau *(Caer Drewyn)*
- Mae'r disgyblion yn gweithio'n dda yn unigol a gydag eraill *(Penmorfa)*

Awyrgylch cyffredinol: **3 ysgol**

- awyrgylch ble mae unigolion ifanc yn arbennig ac adlewyrchir hyn yn ymarferol yn ethos moesol a chymdeithasol yr ysgol, ac yn ansawdd bywyd yn yr ysgol yn gyffredinol *(Babanod Bodnant)*
- Mae'r ysgol yn gymuned drefnus sy'n cael ei rhedeg yn dda *(Caer Drewyn)*
- Mae'r ysgol yn gymuned gynnes, cyfeillgar a gofalgar sy'n cynnig diogelwch a chefnogaeth i'w holl ddisgyblion *(Cefn Meiriadog)*

Cydymffurfio â gofynion statudol ar gyfer cydaddoli: **2 ysgol**

- mae gweithredoedd dyddiol o gydaddoli yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion statudol *(Trefnant)*
- mae'r ysgol yn cwrdd â'r gofynion statudol ar gyfer darparu gweithredoedd dyddiol o gydaddoli *(Babanod Bodnant)*

Cymeriad cydaddoli: **2 ysgol**

- mae gweithredoedd dyddiol o gydaddoli yn Gristnogol eu cymeriad a hynny yw gwraidd y gwerthoedd y mae'r ysgol wedi'i seilio arnynt *(Trefnant)*
- Yng ngwasanaethau'r ysgol gyfan, a gynhelir ar dri diwrnod yr wythnos, mae'r disgyblion yn parchu'r ethos crefyddol a'r ymdeimlad o 'le gwahanol' *(Cefn Meiriadog)*

Trafod materion moesol: **2 ysgol**

- trafodir materion moesol yn rheolaidd mewn amser cylch *(Trefnant)*
- mae amseroedd Clwb a chylch ….. yn gweithredu fel fforwm ar gyfer trafod materion megis perthnasoedd ac yn helpu i hyrwyddo gwerthoedd yr ysgol o ran cyfleoedd cyfartal a pharch at eraill *(Babanod Bodnant)*

Gweithgareddau allgyrsiol: **2 ysgol**

- Caiff datblygiad cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion ei wella gan weithgareddau allgyrsiol megis Yr Urdd, yr Eisteddfod, Clwb Cerddoriaeth, gwersi offerynnol a chwaraeon *(Cefn Meiriadog)*
- Caiff gwerthfawrogiad y disgyblion o gelf a chrefft, o gerddoriaeth a dawns ac o lenyddiaeth plant ei wella drwy ymwelwyr â'r ysgol a thrwy ymweliadau ag orielau, drwy berfformiadau drama amrywiol a thrwy ymweld ag amryw o fannau diddorol sy'n gysylltiedig â hanes lleol *(Babanod Bodnant)*

<u>Ymwybyddiaeth amgylcheddol:</u> **2 ysgol**

- Anogir y disgyblion yn effeithiol hefyd i fod yn ymwybodol o bwysigrwydd eu hamgylchedd ac i weithio tuag at wobrau Eco Ysgol *(Cefn Meiriadog)*
- Dengys y disgyblion safonau da iawn yn eu gofal am eraill ac am eu hamgylchedd *(Babanod Bodnant)*

<u>Gweddïo:</u> **1 ysgol**

- Mae'r disgyblion yn gweddïo'n ddyddiol *(Cefn Meiriadog)*

<u>Ymweliadau â mannau addoli lleol:</u> **1 ysgol**

- Mae'r ysgol yn addoli yn yr eglwys leol unwaith yr wythnos. Cynhelir yr Ŵyl Ddiolchgarwch yn y Capel Cymraeg *(Cefn Meiriadog)*

<u>Cysylltiadau gyda'r eglwys/gymuned leol:</u> **1 ysgol**

- Mae'r clerigwyr lleol, sy'n ymwelwyr rheolaidd â'r ysgol, yn cymryd gwasanaethau yn aml ac yn siarad â'r disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at eu dealltwriaeth ysbrydol *(Babanod Bodnant)*

<u>Cynllunio ar gyfer datblygiad ysbrydol:</u> **1 ysgol**

- Mae cynllunio ar gyfer datblygu datblygiad ysbrydol y disgyblion wedi'i gynnwys ym mhob maes pwnc *(Babanod Bodnant)*

<u>Parchedig ofn a rhyfeddod:</u> **1 ysgol**

- Anogir disgyblion ….. i ddatblygu ymdeimlad o chwilfrydedd a rhyfeddod ynghylch eu hamgylchedd *(Babanod Bodnant)*

<u>Ymdeimlad o gael eich gwerthfawrogi:</u> **1 ysgol**

- Mae'r disgyblion yn deall bod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn rhoi gwerth ar eu syniadau unigol *(Babanod Bodnant)*

<u>Dealltwriaeth/ymwybyddiaeth o effaith credoau ar fywyd:</u> **1 ysgol**

- Mewn gwersi AG, mae'r disgyblion yn dysgu sut mae'r ffydd Gristnogol yn effeithio ar fywyd llawer o bobl yn y wlad hon, a sut y mae credo'n effeithio ar y ffordd y mae pobl yn ymddwyn fel unigolion ac fel cymuned *(Babanod Bodnant)*

<u>Effaith y ddarpariaeth YMCD ar gynnydd, cyrhaeddiad a datblygiad personol:</u> **1 ysgol**

- Mae'r 'clwb cyfeillgarwch' ac 'amseroedd cylch' yn cael effaith fuddiol ar gynnydd, cyrhaeddiad a datblygiad personol y disgyblion *(Babanod Bodnant)*

<u>Cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain:</u> **1 ysgol**

- Anogir disgyblion i ymateb mewn ffordd aeddfed tuag at osod eu targedau eu hunain ar gyfer cyrhaeddiad academaidd *(Caer Drewyn)*

<u>Cynlluniau ar gyfer cydaddoli:</u> **1 ysgol**

- Mae yna gynllun tymhorol ar gyfer cydaddoli sy'n nodi'r themâu, y gerddoriaeth a'r gweddïau sydd i'w defnyddio. Maent yn gydlynol eu strwythur *(Y Castell)*

<u>Datblygiad ysbrydol:</u> **1 ysgol**

- Mae datblygiad ysbrydol y disgyblion yn dda *(Penmorfa)*

SYLWADAU NEGYDDOL:

Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliannau/draddodiadau eraill: **1 ysgol**

- Mae gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliannau eraill y byd heb ddatblygu digon *(Trefnant)*

Y Cwricwlwm Cymreig/Y Dimensiwn Cymreig: **1 ysgol**

- Mae gwybodaeth y disgyblion am artistiaid, cerddoriaeth a chymeriadau Cymreig mewn hanes yn gyfyngedig *(Trefnant)*

Gweithio'n annibynnol: **1 ysgol**

- Mae'r cyfleoedd i'r disgyblion gwrdd â her gweithio'n fwy annibynnol yn gyfyngedig i'r disgyblion hŷn *(Caer Drewyn)*

## ADDYSG GREFYDDOL

*Crybwyllwyd mewn Materion Allweddol:* **0 ysgol**

*Ni chrybwyllwyd AG yn y materion allweddol yn yr un ysgol, heblaw yn ystyr cynnal safonau.*

SYLWADAU CADARNHAOL:

Safonau cyrhaeddiad: **6 ysgol**

- da yn y ddau gyfnod allweddol *(Trefnant; Cefn Meiriadog; Caer Drewyn; Y Castell (*); Penmorfa)*
- da yng nghyfnod allweddol 1 *(Babanod Bodnant)*

? *"dim gwersi wedi'u gweld; seiliwyd barn ar archwilio gwaith a thystiolaeth arall"*

Gwybodaeth/dealltwriaeth o Gristnogaeth: **6 ysgol**

- Mae disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn gwybod am y prif wyliau a seremonïau Cristnogol; yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o Gristnogaeth *(Trefnant)*
- Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 yn ennill adnabyddiaeth dda o Gristnogaeth …. trwy ddysgu am yr Hen Destament a'r Newydd, ac amrywiol wyliau. Dengys disgyblion Blwyddyn 2 ddealltwriaeth o ddilyniant y digwyddiadau yn stori'r Geni ac maent yn ysgrifennu capsiynau priodol ar gyfer darluniau *(Cefn Meiriadog)*
- Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu eu hastudiaeth o Gristnogaeth …. yn fwy manwl. Mae'r disgyblion yn dysgu sut mae Cristnogion enwog yn arwain eu bywydau er lles eraill, er enghraifft Gladys Aylward *(Cefn Meiriadog)*
- (Mae disgyblion cyfnod allweddol 2) yn cynnal ymchwiliadau diddorol i wahanol fathau o groesau *(Cefn Meiriadog)*
- Mae'r disgyblion yn deall mai Cristnogaeth yw'r prif gredo grefyddol yn y wlad hon ac maent yn gyfarwydd ag adeiladau'r eglwys leol a'u pwrpas. Trwy baratoi cyfres o gwestiynau y maent wedyn yn eu gofyn i ddau glerigwr lleol, mae'r disgyblion yn dod yn gyfarwydd â gwaith a dull o fyw arweinwyr crefyddol o fewn cymdeithas *(Babanod Bodnant)*
- Yng nghyfnod allweddol 1 dengys y disgyblion ddealltwriaeth o'r storïau o Gristnogaeth. Maent yn cofio'r ffeithiau o'r storïau ac yn cysylltu'r rhain â chysyniadau megis cyfrifoldeb, tosturi, maddeuant a helpu eraill *(Caer Drewyn)*
- Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 yn datblygu dealltwriaeth dda o le defod mewn credoau Cristnogol pan fyddant yn actio bedydd yn yr eglwys leol. Maent yn ymwybodol fod yr eglwys yn lle arbennig ble mae Cristnogion yn addoli. Maent yn dysgu bod Cristnogion yn aml yn defnyddio geiriau arbennig pan fyddant yn gweddïo *(Y Castell)*
- Yng nghyfnod allweddol 1 a 2 mae gan y disgyblion wybodaeth a dealltwriaeth dda o Gristnogaeth a gwyliau Cristnogol. Yng nghyfnod allweddol 1 mae'r disgyblion yn deall ystyr dathliadau crefyddol ac yn dangos gwerthfawrogiad o'u harwyddocâd yn y ffydd Gristnogol. Yng nghyfnod allweddol 1, mae'r disgyblion …… yn deall nodweddion bod yn Gristion mewn cyd-destun ysbrydol ac mewn cyd-destun moesol ble maent wedi trafod damhegion a materion ecolegol *(Penmorfa)*

<u>Gwybodaeth/dealltwriaeth o grefyddau heblaw Cristnogaeth:</u> **6 ysgol**

- Yng nghyfnod allweddol 2 mae gan y disgyblion ……. adnabyddiaeth gynyddol o gredoau ac arferion crefyddau eraill. Wrth astudio agweddau ar draddodiadau crefyddol eraill, yn cynnwys eu gwyliau a'u traddodiadau, maent yn datblygu dealltwriaeth o, a pharch at, wahanol ddiwylliannau a safbwyntiau *(Trefnant)*
- Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 yn ennill gwybodaeth dda am ….. Iddewiaeth trwy ddysgu am storïau'r Hen Destament a'r Newydd, ac amrywiol wyliau *(Cefn Meiriadog)*
- Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn archwilio agweddau arbennig ar grefyddau eraill drwy gelf, yn cynnwys llawer o ffotograffau ac adnoddau printiedig a thrwy gymharu dathliadau a defodau newid byd. Maent yn datblygu eu hastudiaeth o …. Iddewiaeth yn fwy manwl. Maent hefyd yn astudio rhai o ddaliadau sylfaenol Islam *(Cefn Meiriadog)*
- Mae'r disgyblion yn dysgu am grefyddau eraill sy'n cael eu dilyn gan bobl o fewn eu cymuned ac maent yn deall arwyddocâd dathliadau a gwyliau arbennig i'r crefyddau eraill hynny, yn arbennig y ffydd Iddewig. Mae defnydd arteffactau priodol megis y rheini a ddefnyddir ar gyfer pryd Iddewig arbennig yn gwella eu dealltwriaeth o symbolau a gweithredoedd o fewn y ffydd yma *(Babanod Bodnant)*
- Yng nghyfnod allweddol 1 dengys y disgyblion ddealltwriaeth o'r storïau …. o grefyddau eraill. Maent yn cofio ffeithiau o'r storïau ac yn cysylltu'r rhain â chysyniadau megis cyfrifoldeb, tosturi, maddeuant a helpu eraill *(Caer Drewyn)*
- Mae gan ddisgyblion (cyfnod allweddol 2) ddealltwriaeth gadarn o grefyddau eraill, a pharch atynt *(Caer Drewyn)*
- Gŵyr disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 fod gan gymunedau ffydd ddiwrnodau arbennig pan ddethlir digwyddiadau pwysig. Maent yn dysgu am y ffydd Iddewig a'i llyfr arbennig y Torah. Gwyddant sut y mae'r Iddewon yn dathlu'r Sabath a sut y maent yn defnyddio'r synagog. Maent yn dysgu am ŵyl Iddewig Sukkot *(Y Castell)*
- Dengys disgyblion cyfnod allweddol 2 ymwybyddiaeth dda o wahanol gredoau ac arferion crefyddol drwy astudiaeth o grefyddau eraill. Maent yn cofio ac yn egluro Pum Colofn Islam ac yn dangos ymwybyddiaeth o arwyddocâd arferion a rhanbarthau'r Mandir yn y grefydd Hindŵaidd *(Y Castell)*
- Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn deall ystyr dathliadau crefyddol ac yn dangos gwerthfawrogiad o'u harwyddocâd yn y ffydd Iddewig *(Penmorfa)*
- Wrth astudio traddodiadau crefyddol eraill, yn cynnwys eu gwyliau a'u dathliadau, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn dangos dealltwriaeth dda o wahanol ddiwylliannau a safbwyntiau a pharch tuag atynt *(Penmorfa)*
- Roedd storïau o'r prif grefyddau …. yn cyflenwi'r plant â sylfaen dda i ddatblygu eu barn am ddiwylliant a ffydd arnynt *(Penmorfa)*

<u>Gwybodaeth am gysyniadau a themâu:</u> **6 ysgol**

- Mae'r disgyblion yn gwerthfawrogi'r angen am deulu a chyfeillion a phwysigrwydd pobl sy'n ein helpu. Yng nghyfnod allweddol 1 mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o beth sy'n gwneud cyfaill da *(Trefnant)*
- Mae disgyblion yn Blwyddyn 2 yn trafod sut y mae amrywiol bobl yn eu helpu, gan ddechrau gyda rôl eu teulu eu hunain, gofalu am faban a pherthnasoedd *(Cefn Meiriadog)*
- O fewn bywyd pob dydd yr ysgol mae'r disgyblion yn dysgu ystyr gweddïo a'i arfer drwy ddysgu ac adrodd gweddïau mewn gwasanaethau ac ar ddiwedd y dydd. Gwyddant fod canu'n agwedd bwysig ar addoliad *(Babanod Bodnant) (*)*
- Mewn gwersi AG mae'r disgyblion yn trafod y da a'r drwg ac yn cymhwyso eu dealltwriaeth at fyw pob dydd. Gwyddant y gall eu geiriau a'u gweithredoedd effeithio ar eraill a gwyddant y gallant ac y dylent ddangos gofal tuag at eraill *(Babanod Bodnant)*
- Yng nghyfnod allweddol 2 mae'r disgyblion yn ymateb gyda brwdfrydedd ynghylch sut y mae arwyddion llaw yn cyfleu gwahanol ystyron mewn cymdeithas ac mewn gwahanol grefyddau. Maent yn cysylltu hyn yn dda â chymdeithas heddiw mewn perthynas â phobl nad ydynt yn anabl a phobl anabl *(Caer Drewyn)*
- Gŵyr disgyblion cyfnod allweddol 1 fod gan gymunedau ffydd ddiwrnodau arbennig pan ddethlir digwyddiadau pwysig. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ymwybodol fod gan bob crefydd ei leoedd arbennig a'i lyfrau arbennig *(Y Castell)*
- Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn deall ystyr dathliadau crefyddol *(Penmorfa)*

*(*) Mewn gwirionedd ymddangosodd y sylw hwn yn adran AG yr adroddiad er gwaethaf cyfarwyddyd clir i'r gwrthwyneb oddi wrth Estyn!*

<u>Dim diffygion:</u> **5 ysgol**

- Nid oes dim diffygion arwyddocaol *(Trefnant; Cefn Meiriadog; Bodnant; Caer Drewyn; Y Castell)*

Gwybodaeth/dealltwriaeth o'r Beibl/storïau'r Beibl: **5 ysgol**

- Mae gan y disgyblion wybodaeth dda am storïau adnabyddus y Beibl ac maent yn cofio'r manylion yn dda *(Trefnant)*
- Defnyddir storïau Moses, Ruth a damhegion yr Iesu i atgyfnerthu'r angen i ofalu ac ymddiried *(Cefn Meiriadog)*
- Mae disgyblion yn myfyrio ar y storïau a adroddir iddynt o'r Beibl ac mewn trafodaethau maent yn nodi arwyddocâd y storïau hyn o'r Beibl i'w bywydau eu hunain heddiw. Maent yn cysylltu stori Noa â materion amgylcheddol heddiw ac â'r angen i ofalu am y byd y maent yn byw ynddo *(Babanod Bodnant)*
- Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn gwybod amryw o storïau o'r Hen Destament a'r Newydd ac yn darlunio'r rhain, megis pan fydd disgyblion Blwyddyn 2 yn cwblhau taflen waith am fersiwn y Beibl o stori'r Creu ac yn dylunio ac yn lliwio côt amryliw i Joseph *(Y Castell)*
- Yng nghyfnod allweddol 1 mae'r disgyblion yn gwybod llawer o storïau o'r Beibl ac maent wedi trafod damhegion *(Penmorfa)*

Ymweliadau ag eglwysi/capeli/mannau addoli lleol: **3 ysgol**

- Mae'r disgyblion yn ymweld â'r eglwys leol ac yn dysgu am y nodweddion arwyddocaol a'u pwrpas *(Trefnant)*
- Mae'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o le defod mewn credoau Cristnogol pan fyddant yn actio bedydd yn yr eglwys leol *(Y Castell)*
- Rhoddir dyfnder ychwanegol i ddealltwriaeth y disgyblion o symbolaeth grefyddol ac o'r gwahaniaethau a'r nodweddion sy'n debyg mewn arferion crefyddol drwy ymweliadau ag eglwysi a chapeli lleol a'r gadeirlan yn Llanelwy *(Penmorfa)*
- Mae astudio agweddau ar draddodiadau crefyddol eraill …. wedi'i wella ymhellach gan ymweliad â synagog a chysylltiadau â'r Ganolfan Islamaidd *(Penmorfa)*

Cyfansoddi eu gweddïau eu hunain: **3 ysgol**

- Ar achlysuron arbennig, mae'r disgyblion yn llunio eu gweddïau eu hunain, sy'n berthnasol iddynt hwy *(Trefnant)*
- Mae disgyblion (yng nghyfnod allweddol 2) yn ysgrifennu gweddïau diolch meddylgar *(Cefn Meiriadog)*
- Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn ysgrifennu eu geiriau arbennig eu hunain ac yn eu defnyddio i fyfyrio arnynt; mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu gweddïau syml sy'n rhoi diolch am y pethau sy'n bwysig iddynt *(Y Castell)*

Perthynas y Cynllun Gwaith â'r Maes Llafur Cytûn: **2 ysgol**

- Mae'r ysgol yn dilyn Maes Llafur Cytûn yr AAll *(Cefn Meiriadog)*
- Mae'r ysgol yn cwrdd â'r safonau a amlinellir yn y Maes Llafur Cytûn *(Caer Drewyn)*

Cyfraniad AG at Ddatblygiad YMCD: **1 ysgol**

- Mae AG yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at addysg YMCD y disgyblion *(Caer Drewyn)*

Amser cylch ac elfennau AG: **1 ysgol**

- Trwy ddefnydd da ar 'amser cylch', mae'r disgyblion yn datblygu sensitifrwydd i deimladau eraill ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd gofalu a rhannu *(Trefnant)*

Dathlu gwyliau: **1 ysgol**

- Caiff gwyliau Nadolig a Chynhaeaf yr ysgol eu dathlu yn yr eglwysi o fewn y gymuned *(Babanod Bodnant) (*)*

*(*) Ymddengys y sylw hwn yn adran AG yr adroddiad er ei fod yn ymdrin mewn gwirionedd â YMCD yn hytrach na chwricwlwm AG – yn groes i gyfarwyddyd Estyn.*

SYLWADAU NEGYDDOL

Cyfleoedd i fyfyrio: **1 ysgol**

- Mae dealltwriaeth y disgyblion yn gyfyngedig gan nad ydynt yn cael cyfleoedd digonol i fyfyrio ar eu gwybodaeth a'u profiad mewn gwersi neu wasanaethau *(Penmorfa) (*)*

*(*) Ymddengys y sylw hwn yn adran AG – ac mae'n rhoi sylw i AG A chydaddoli; mae hefyd yn awgrymu bod dealltwriaeth y disgyblion yn gyfyngedig – ac eto barnwyd bod safonau cyrhaeddiad yn dda.*

Defnydd arteffactau i wella dysgu ac addysgu: **1 ysgol**

- Caiff dealltwriaeth ddyfnach o grefydd ei lesteirio gan brinder arteffactau crefyddol *(Penmorfa) (*)*

*(*) Mae'r sylw hwn yn awgrymu bod dealltwriaeth y disgyblion yn gyfyngedig neu'n arwynebol – ac eto barnwyd bod safonau cyrhaeddiad yn dda.*

**Rt Hon Rhodri Morgan AM**
**First Minister/Prif Weinidog Cymru**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

**Cardiff Bay**
**Cardiff CF99 1NA**
**029 2089 8782**
**GTN 1208**

**Bae Caerdydd**
**Caerdydd CF99 1NA**
**029 2089 8782**
**GTN: 1208**

**Fax/Ffacs:: 029 2089 8198**
**Email/Ebost: rhodri.morgan@wales.gsi.gov.uk**

Our ref/Ein cyf: SF/FM/0828/02

Kath Jones
Clerk to Denbighshire SACRE
County Clerk's Department
Denbighshire County Council
Russell House
Churton Road
Rhyl LL18 3DP

1 October 2002

Dear Kath

I am writing to you concerning Wales' National Holocaust Memorial Day, to introduce the event co-ordinator and suggest some ways in which your organisation can contribute to this project.

The Memorial service will take place on 28 January 2003 at the Temple of Peace and Health in Cathays Park, Cardiff from 7pm to 9pm. I would like this to be a national event which will involve children and adults representing the whole of Wales, and the theme for this year will be 'Hope for the Future'.

The event will be attended by AMs, MEPs, and MPs from Wales, as well as ministers or representatives of all the religions in Wales and other dignitaries, invited guests, parents and relatives of those children taking part and members of the public. The ceremony should receive press, radio and TV coverage as an event of national importance in cohering the diverse nature, ethnic and religious mixture of our population.

I hope that you will be able to assist in this project. Various ways of doing this are set out in the attached annex.

Please address all correspondence to the co-ordinator, Jen Malcolm of Neath Port Talbot Education Development Service, Directorate of Education, Leisure and Lifelong Learning, Civic Centre, Port Talbot SA13 1PJ. Ms Malcolm can be contacted by telephone on (01639) 763767, by fax on (01639) 763520, or by e-mail at eds@neath-porttalbot.gov.uk.

Yours
Rhodri Morgan

- 3 OCT 2002

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Annex

Suggested format for school contributions to Holocaust Memorial Day

## Primary Schools

- Co-ordinator to send out the template of a leaf.
- SACRES to ask schools to encourage pupils to write a poem on racism and 'Hope for the Future'. (Years 5 & 6 – Key stage 3)
- Best poem from each school is to be written on a card leaf (from template sent to SACRE) and forwarded to the local SACRE by **October half term**.
- SACRE to look at all the leaves and send the best poem on a leaf and 10 other poems to Jen Malcolm for *display at the Temple of Peace in Cardiff.* To be sent by **6th December 2002**.
- Group led by co-ordinator to choose 5 of the leaf poems to represent the five Welsh areas. Winning authors to be contacted and asked to come with parents to Temple to read them on the night before the assembled audience.

## Secondary Schools

- There will be two categories - Key stage 3 and Key Stage 4
- Pupils in these two key stages to be asked to produce a picture or poster based on the theme of prejudice and hope (Size A3).
- Schools to send best key stage 3 and 4 pictures to co-ordinator by **6th December 2002**.

Agenda Eitem Rhif 8(b)/ Agenda Item No. 8(b)

Wales Association of SACREs / Cymdeithas CYSAGau Cymru

Chairman/*Cadeirydd*: Rheinallt A. Thomas
Heulfryn
33 Tŷ Mawr
Menai Bridge/*Porthaethwy*
Anglesey/*Ynys Môn*
LL59 5LJ
Tel/*Ffôn*: 01248 714488
Fax/*Ffacs*: 01248 715891
e-mail/*e-bost*: rheinallt@heulfryn.fsbusiness.co.uk

Secretary/*Ysgrifenydd*: Meinir Evans
2, Penllys Terrace,
Bangor
Gwynedd
LL57 2AT
Tel/*Ffôn*: 01248 353121
e-mail/*e-bost*: meinirevans@hotmail.com

**At Glerc pob CYSAG**

**To all SACRE Clerks**

Amgaeaf gopi o adroddiad blynyddol Cymdeithas CYSAGau Cymru er mwyn i chi ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf eich CYSAG lleol.

Er gwybodaeth, etholwyd y Cynghorydd Arwel Jones (CYSAG Gwynedd) a Mr. Huw Erfyl Jones (CYSAG Sir Fflint) i'r Pwyllgor Gwaith. Etholwyd yr Athro Aled ap Gwynedd (CYSAG Penfro) yn Is-gadeirydd y Gymdeithas.

Enclosed is a copy of the annual report of the Welsh Association of SACREs to be presented in the next meeting of your local SACRE.

For your information, Councillor Arwel Jones (Gwynedd SACRE) and Mr. Huw Erfyl Jones (Flintshire SACRE) were elected to the Executive Committee. Professor Aled ap Gwynedd (Pembrokeshire SACRE) was elected Vice-Chair of the Association.

Diolch am eich cydweithrediad,
Thank you for your co-operation,

Meinir Evans
Ysgrifennydd/Secretary

Wales Association of SACRES Cymdeithas CYSAGau Cymru

**Gweithgareddau'r Gymdeithas 2001 – 2002**

1. Cyfarfu'r Gymdeithas dair gwaith – yng Nglynebwy ar Dachwedd 8fed, 2001, yng Nghwmbran ar 7fed Chwefror, 2001 ac yn Abertawe ar 12fed Gorffennaf, 2002. Cynhaliwyd tri chyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith yn Llandrindod ar 1af Hydref 2001, 9fed Ionawr, 2002 a 22ain Mai, 2002.

2. Yn ôl y drefn a gytunwyd rhwng y Gymdeithas a PYCAG seiliwyd y cyfarfodydd ar y themâu a nodwyd yn y Cynllun Datblygu – sef 'Addysg Grefyddol ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol (Graham Davies, Eluned Jones, Vaughan Salisbury a Gavin Craigen); 'Addysg Grefyddol ôl-16' (Tudor Thomas a Paul Matthews-Jones); 'Safonau mewn Addysg Grefyddol' (Paul Morgan).

3. Cafwyd cyfraniadau hefyd gan yr Athro Terence Copley o Brifysgol Exeter ar 'Y Prosiect Biblos' a chan Ms. Julie James o ELWa ar y modelau ariannau arfaethedig.

4. Bu i ddirprwyaeth o'r Pwyllgor Gwaith ymweld â Ms. Jane Davidson AC, Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Roedd y ddirprwyaeth yn cynnwys Mr. Rheinallt Thomas (Cadeirydd), Mrs. Mairwenna B. Lloyd (Is-gadeirydd), Mr. Gavin Craigen (Panel Ymgynghorol Cymru dros Addysg Grefyddol), Mr. Hywel Evans (Mudiad Addysg Grefyddol Cymru) a Miss Meinir Evans (Ysgrifennydd). Cafwyd trafodaeth fuddiol dros ben ynghylch Cylchlythyr 10/94, recriwtio a hyfforddi athrawon, adnoddau ar gyfer Addysg Grefyddol a darpariaeth Addysg Grefyddol ac Astudiaethau Crefyddol ôl-16. Cytunwyd, ar gynnig y Gweinidog, y dylid cynnal cyfarfod o'r fath eto y flwyddyn nesaf.

5. Cynhaliwyd Symposiwm gan Cymdeithas CYSAGau Cymru mewn cydweithrediad ag ACCAC yn Ysgol Gynradd Llanidloes ar 27ain o Ebrill, 2002. Prif nod y Symposiwm oedd ystyried statws a rôl Meysydd Llafur Cytun Addysg Grefyddol yn y presennol a'r dyfodol. Croesawyd yr aelodau gan Mr. Brian Connolly, Cadeirydd ACCAC a chafwyd cyflwyniad gan Mr. Rheinallt Thomas. Treuliwyd gweddill y bore a'r prynhawn mewn grwpiau trafod yn ymdrin â chwestiynau penodol. Fe fydd prif bwyntiau ac argymhellion y grwpiau trafod yn ymddangos mewn adroddiad gan y Gymdeithas. Rhoddwyd sylwadau terfynol gan Mr. John Valentine Williams, Prif Weithredwr ACCAC.

6. Cafwyd cytundeb rhwng Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol, y Gymdeithas a Phwyllgor Ymgynghorol Cymru dros Addysg Grefyddol i gyhoeddi'r cyflwyniadau a wneir yng nghyfarfodydd y Gymdeithas yn Newyddion Addysg Grefyddol. Mae modd tynnu'r atodiadau hyn o ganol y cylchgrawn pe dymunir hynny. Yn ogystal, dosbarthwyd 4 ffeil i bob Awdurdod a hynny er mwyn iddynt gartrefu'r copiau o'r cyflwyniadau a'u hanfonir gan y Gymdeithas i bob awdurdod. Y mae'r atodiadau hyn eisoes wedi derbyn ymateb cadarnhaol dros ben.

7. Ymatebwyd i nifer o ddogfennau ymgynhori yn ystod y flwyddyn gan gynnwys ymateb i'r Ffframwaith Arolygu Cyffredin dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (ESTYN).

8. Bu i'r rhan fwyaf o GYSAGau Cymru anfon copiau o'u Hadroddiadau Blynyddol at y gymdeithas.

9. Cytunwyd y dylai'r Is-Gadeirydd, Mrs. Mairwenna B. Lloyd, gynrychioli'r Gymdeithas ar y RE Council ac fe wnaeth hynny ar y ddau achlysur. Yn ogystal, cytunodd y Gymdeithas y byddai'r gwneud cyfraniad ariannol rhesymol tuag at gynnal cyfarfod yng Nghymru rywdro yn y dyfodol.

10. Cynrychiolwyd y Gymdeithas gan yr ysgrifennydd, Miss Meinir Evans, yng nghyfarfod yr Inter-Faith Network yn Llundain. Bu hefyd yn yr Fforwm Ffydd Pobl Ifanc a gynhaliwyd ar y cyd rhwng swyddfa'r jiwbili a'r Inter-Faith Network ym Mhalas St. James. Cynrychiolwyd Cymru ar y diwrnod hwn gan 6 o bobl ifainc.

11. Cynrychiolwyd y Gymdeithas gan Gadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Cymru dros Addysg Grefyddol, Mr. Gavin Craigen, yng nghyfarfod QCA yn Llundain er mwyn ystyried posibilrwydd creu fframwaith cenedlaethol anstatudol i Addysg Grefyddol yn Lloegr.

12. Mynychodd ddirprwyaeth ar ran y Gymdeithas, sef, Mrs. Mairwenna B. Lloyd, Mrs Mary Parry a Miss Meinir Evans gyfarfod gyda Dr. Medwin Hughes, Prifathro Coleg y Drindod ynghyd â Mr. Vaughan Salisbury a Dr. Trystan Hughes. Pwrpas y cyfarfod oedd ystyried ffyrdd o hyrwyddo cyrsiau Addysg ac Astudiaethau Crefyddol er mwyn sicrhau bod niferoedd digonol yn dilyn y pwnc hyd at gyrsiau TAR.

13. Bwriedir cynnal cyfarfodydd y Gymdeithas yn ystod 2002 – 2003 ar y dyddiadau a ganlyn: 15 Tachwedd 2002 (Dyffryn Clydach, Rhondda Cynon Taf), 12 Chwefror 2003 (Bro Morgannwg), 27 Mehefin (Wrecsam).